


Astudiaeth ddichonoldeb ac Achos busnes:

# Datblygu hen adeilad Comisiwn Coedwigaeth Cymru ym Mwlch Nant yr Arian fel adnodd ar gyfer Mynyddoedd Cambria

Deio Jones & Scott Sullivan: Resources for Change

## CYNNWYS


**RHAGARWEINIAD** .......... 2

**METHODOLEG** .......... 3

**Y SEFYLLFA BRESENNOL** .......... 3

*Y safle* .......... 3
*Cyfleusterau Presennol* .......... 4
*Proffil o'r ymwelwyr presennol* .......... 4
*Gweithgaredd Presennol* .......... 5
*Adeilad y cyn Comisiwn Coedwigaeth Cymru* .......... 6

**YR ACHOS DROS NEWID** .......... 7

*Blaenoriaethau: beth mae'r cymunedau lleol a'r defnyddiwyr cyfredol eisiau gweld?* 7
*Ymateb i wendidau cyfredol* .......... 7
*Cyfleoedd ar gyfer adeiladu ar gryfderau cyfredol* .......... 7
*Cyfle i ddarparu buddion lleol* .......... 8
*Capasiti i newid* .......... 8
*Cyd-destun strategol* .......... 9

**DATBLYGIAD NEWYDD: CANFOD DEWISIADAU POSIBL** .......... 11

*Y RHESTR HIR* .......... 11
*Y RHESTR FER* .......... 11

**CANFOD YR OPSIWN DEWISOL** .......... 12

*TYBIAETHAU* .......... 12
*YR OPSIWN A GYNIGIR* .......... 13
*Y SAIL RESYMEGOL* .......... 14
*GWARIANT CYFALAF* .......... 14
*RHAGAMCANIAD CYLLIDOL 3 MLYNEDD AR GYFER YR OPSIWN DEWISOL* .......... 14
*RHAGAMCANIAD CYLLIDOL 3 MLYNEDD – MANWL* .......... 15

**CYNLLUN GWEITHREDU** .......... 16

**MODEL DARPARU** .......... 16

**CASGLIAD** .......... 16


## RHAGARWEINIAD

Yn 2020 roedd *Cyngor Sir Ceredigion* (yn gweithredu ar ran *Cynnal Y Cardi Grŵp Gweithredol Lleol)* a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi comisiynu R4C i ymchwilio amrywiaeth o ddewisiadau posibl ar gyfer datblygu potensial adeilad y cyn Comisiwn Coedwigaeth Cymru ym Mwlch Nant yr Arian.

Mae'r adeilad wedi bod yn wag ers amryw o flynyddoedd. Wedi'i leoli mewn man strategol bwysig ym Mynyddoedd Cambria ac yn manteisio ar leoliad gwych, mae dan berchnogaeth a rheolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.

Bwriad y prosiect hwn oedd i ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb er mwyn hysbysu datblygiad dyfodol yr adeilad pwysig hwn a chreu braslun cynllun busnes ar gyfer y dewis gorau. Fe fyddai angen i unrhyw ail ddatblygiad arfaethedig o'r adeilad greu incwm cynaliadwy digonol i ateb gofynion cynnal a chadw, staffio a chostau cynhaliaeth gyda gwarged i'w ail fuddsoddi yn yr ardal dros yr hir dymor. Yn ychwanegol, fe ddylai'r ail ddatblygu alluogi un o'r canlynol:

- Ymwybyddiaeth gynyddol o dirwedd, natur, a threftadaeth ddiwylliannol Mynyddoedd Cambria a Cheredigion;
- Cyfleoedd ar gyfer yr economi leol;
- Adnodd ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr megis ar gyfer iechyd, lles, addysg a mwynhad.

> ***Noder**: Yn greiddiol i'r ymgynghoriad y mae syniadau a barn yr ymatebwyr, ac efallai na fyddant bob amser yn ffeithiol gywir. Fodd bynnag, fe all enghreifftiau felly rhoi mewnwelediad gwerthfawr e.e. pe bai nifer o drigolion yn cyfeirio at yr angen am weithgarwch penodol, neu weithgarwch sydd eisoes yn bodoli, mae'n amlygu'r diffyg gwybodaeth leol ynghlych y ddarpariaeth gyfredol.*

## METHODOLEG

Ein bwriad oedd i ymgymryd â phroses gydweithredol a chynhwysol, gan alluogi rhanddeiliaid i gael dweud eu dweud a chwarae rhan weithredol yn y penderfyniadau.

Ar gyfer yr ymghynghoriad cychwynnol i'r gymuned a'r rhanddeiliaid, cychwynwyd arolwg dwyieithog ar lein yn targedu'r gymuned leol, busnesau a mudiadau sy'n elwa o'r safle, gan eu hysbysu trwy rwydweithiau lleol a chyfryngau cymdeithasol. Roedd ar agor am fis rhwng Ebrill a Mai 2021 a derbyniwyd 224 o ymatebion.

Golyga cyfyngiadau Covid-19 nad oeddwn yn gallu mynd at ymwelwyr yn uniongyrchol ym Mwlch Nant yr Arian, a dyna paham y cynhaliwyd yr arolwg yn gyfan gwbl ar lein. Ymwelodd Deio Jones â'r safle gyda'r rheolwyr er mwyn cyfarwyddo â'r lleoliad, a hefyd fe wnaeth ymweld yn ystod penwythnos Gŵyl y Banc er mwyn profi'r safle fel ymwelydd. (*Atodiad A*)

Cynhaliwyd dau weithdy ar wahân ar lein gyda rhanddeiliaid gweithredol er mwyn dilysu'r casgliadau a datblygu'r syniadau a'r cynigion cychwynnol a oedd yn ffurfio ein 'rhestr hir' o ddewisiadau. Hefyd, o ganlyniad cynhaliwyd arolwg byr ychwanegol dros Ŵyl y Banc mis Awst er mwyn targedu ymwelwyr/twristiaid a oedd yn gynulleidfa goll o'r arolwg cychwynnol. (*Atodiad A*)

Mewn ymateb i'r gwaith cychwynnol hwn, datblygwyd a chytunwyd ar feini prawf allweddol gyda'r rhanddeiliaid gan roi sgôr yn eu herbyn ar y restr hir mewn ymarferiad Gwerthusiad Dewisiadau. Gwnaethpwyd hyn yn gydweithredol gyda rhanddeiliaid ar lein mewn gweithdy rhyngweithiol, ac fe ffurfiodd y canlyniadau dewisiadau'r datblygiadau ar y rhestr fer, a oedd yn ymateb i'r anghenion a'r buddion a nodwyd gan y rhanddeiliaid. (*Atodiad B*)

Datblygwyd yr opsiwn delfrydol trwy gyfuno'r elfennau ar y rhestr fer i becyn a oedd yn ymateb i anghenion ac yn darparu'r buddiannau a nodwyd gan y defnyddiwr a'r rhanddeiliaid, tra'n sicrhau y byddai'r datblygiad yn gynaliadwy yn ariannol ac yn cyd-fynd â'r cyd-destun strategol cyfreithiol lleol a rhanbarthol. Rydym hefyd wedi gwneud astudiaethau achos o ddatblygiadau tebyg er mwyn dysgu o'u profiadau ac i ddilysu ein cynigion ein hunain. (*Atodiad C*)

## Y SEFYLLFA BRESENNOL

### Y SAFLE

Wedi'i leoli ar yr A44 rhwng Aberystwyth a Llangurig, mae Bwlch Nant yr Arian yn boblogaidd gyda'r trigolion lleol ac ymwelwyr. Rheolir y cyfleusterau presennol gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac mae wedi'i leoli ar ben bryn trawiadol, gan bontio'r ffin rhwng yr iseldir a'r ucheldir a chynnig golygfeydd godidog o Fae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria.

Mae'r ganolfan ymwelwyr bresennol yn edrych dros lyn bach ac yn fan cychwyn i nifer o lwybrau sy'n ymlwybro trwy'r tirlun cyfagos. Mae olion diwydiant mwynglawdd plwm dal yn weladwy ar hyd y llwybrau, ond erbyn heddiw llus a grug sy'n gorchuddio'r bryniau rhwng y coedwigoedd. Mae'r coetiroedd cyfagos yn goedwigaeth weithredol, ac fe blannwyd coed llydanddail yn ddiweddar ar y safle i ddisodli coed sydd wedi'u cynaeafu.

Mae Bwlch Nant yr Arian yn enwog am yr olygfa drawiadol o'r barcutiaid coch yn cael eu bwydo'n ddyddiol, ynghyd â'r amryw o lwybrau gydag arwyddion ar gyfer cerddwyr, beicwyr mynydd, rhedwyr, a marchogion ceffylau. Mae hefyd parc sgiliau gyda thrac sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar gyfer beicwyr mynydd er mwyn iddynt ymarfer eu technegau.

Golyga'r lleoliad ar yr A44 fod digon o dwristiaeth ac ymwelwyr yn llifo trwyddo, gan gynnig y potensial i ddehongli Mynyddoedd Cambria a'u bwysigrwydd fel ffynhonnell dwy brif afon y wlad, sef Hafren a Gŵy, ynghyd ag agweddau allweddol eraill megis ei ran yng ngwasanaethau ecosystem trwy sinc carbon, cynhyrchu cig a choed, addysgu, gweithgareddau, iechyd a lles.

Mae'r A44 hefyd yn cysylltu dau o dri llwybr '*The Wales Way*', a hyrwyddwyd gan Croeso Cymru,' 'Ffordd yr Arfordir' a 'Ffordd Cambria'. Fe ddylai hyn ddarparu cyfleoedd ar gyfer hysbysu ac ariannu'r datblygiad newydd, yn enwedig os bydd yn galluogi Bwlch Nant yr Arian i ddatblygu fel canolbwynt allweddol i hybu cynydd mew hyd ymweliadau a gwariant, neu helpu i ymestyn y tymor arferol.

## CYFLEUSTERAU PRESENNOL

Mae'r cyfleusterau presennol ym Mwlch Nant yr Arian yn canolbwyntio ar y Ganolfan Ymwelwyr bresennol. Mae'r adeilad pren hwn, sy'n edrych dros y llyn, yn cynnwys caffi sydd â lle i eistedd dan do neu yn yr awyr agored, a siop roddion. Mae rhywfaint o ddehongli ar yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys ffrwd fyw o'r camera yn y blwch tylluanod. Mae toiledau a swyddfeydd i staff Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn yr adeilad.

O amgylch yr adeilad mae seddau ychwanegol yn yr awyr agored a dau fan chwarae i blant, un ar gyfer plant bach a'r man chwarae 'Dizzying Heights' i blant hŷn. Mae man golchi beiciau, a pharcio ar gyfer oddeutu 50 o gerbydau (ynghyd â pharcio ychwanegol) rhwng y Ganolfan Ymwelwyr bresennol a chyn Adeilad y Comisiwn Coedwigaeth sydd ddim mewn defnydd ar hyn o bryd.

Mae'r lle hwn yn fan cychwyn ar gyfer y rychwant eang o lwybrau gydag arwyddion a nodweddion sydd wedi'u rhestri isod. Mae byrddau dehongli wedi'u gosod o gwmpas, yn enwedig ar hyd 'Lwybr y Barcud' sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn ac sy'n mynd o gwmpas y llyn gan arwain at guddfan adar tu ôl i fan bwydo'r barcutiaid coch.

| Llwybrau | Enw | Pellter | Graddiad |
|---|---|---|---|
| Cerdded | Llwybr y Barcud | 1.2km | Hygyrch |
| | Llwybr y Mwynwyr | 2.4km | Cymedrol |
| | Llwybr y Grib | 5km | Cymedrol |
| Rhedeg | Y Llo | 5km | Cymedrol |
| | Y Fuwch | 10.4km | Egnïol |
| Parc Sgiliau Beicio | Llwybr | 7.9km | Ffordd y Goedwig |
| | Llwybr Melindwr | 5km | Glas / cymedrol |
| | Llwybr Pendam | 10.2km | Coch / Anodd |
| | Llwybr y Copa | 18.5km | Coch / Anodd |
| | Llwybr Syfydrin | 36km | Du / Difrifol |
| | Parc Sgiliau | - | 3x Dolennau cymysg |
| Llwybr ceffyl | Mynydd March | 10.7km | - |
| Cyfeiriannu | X 4 Cwrs | - | Amrywiol |

## PROFFIL O'R YMWELWYR PRESENNOL

Yn ôl '*Wales Visitor Survey'* a gyflwynwyd gan Beaufort Research yn 2019 *(Atodiad D),* mae'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr i Fwlch Nant yr Arian yn ymwelwyr domestig (Cymru:79%; DU 21%), sy'n ymweld fel rhan o wibdaith diwrnod (89%).

O'r rhai sy'n ymweld ar wibdaith diwrnod, mae 81% yn ymweld mwy na 11 gwaith yn flynyddol (62% +20 ymweliad blynyddol), gan awgrymu fod mwyafrif sylweddol yn ymwelwyr lleol. Adlewyrchir hyn yn ein *Ymgynghoriad Cymuned & Rhanddeiliaid* (*Atodiad A)* lle mae 97% o ymatebwyr yn byw'n lleol (45% o fewn 5 milltir; 52% o fewn 25 milltir), 62% yn ymweld yn fisol, ac roedd 96% wedi ymweld o'r blaen o fewn y dair mlynedd ddiwethaf, sy'n drawiadol.

Yn ddiddorol roedd 14% o ymwelwyr wedi darganfod y lleoliad wrth basio i fynd i gyrchfan arall, sy'n awgrymu nad oedd nifer eithaf uchel o ymwelwyr 'nad ydynt yn lleol' wedi cynllunio eu hymweliad ymlaen llaw.

Nododd y ‘*Wales Visitor Survey*’ hefyd bod mwyafrif ymwelwyr i Fwlch Nant yr Arian yn deuluoedd â phlant ifanc (36%), yna cyplau (19%) a ffrindiau (18%). Yn gyffredinol, roedd cyfartaledd uwch o bobl ganol oed 35-54 oed yn ymweld â Bwlch Nant yr Arian (49%) i gymharu â chyfartaledd cyffredinol Cymru yn lleoliadau Cyfoedd Naturiol Cymru (CNC) (39%).


Mae gwariant ymwelwr ychydig yn uwch nag mewn lleoliadau eraill CNC £65.66. Fodd bynnaf, roedd Bwlch Nant yr Arian yn atynnu cyfran uwch o ymwelwyr C2DE (35%) na’r cyfartaledd ar draws lleoliadau (CNC) a Chymru yn gyfangwbl. Mae hwn yn awgrymu cymysgedd o unigolion sy’n gwario llawer neu ychydig; fodd bynnag efallai fod y ffigyrau wedi’u gwyrdroi oherwydd y ffaith fod y mwyafrif o’r ymwelwyr yn byw’n lleol.

Mae 55% o ymwelwyr yn siaradwyr Cymraeg, sy’n amlygu’r angen am ddarpariaeth ddwyieithog ar gyfer dehongliad, arwyddion, a gwasanaethau. Mae’r data o’n *Ymgynghoriad Cymuned & Rhanddeiliaid* (*Atodiad A)* yn dangos fod atebwyr yn dueddol i ymweld gydol y flwyddyn, er bod lleihad amlwg o ymwelwyr yn ystod misoedd y gaeaf. Mae’r mwyafrif (84.1%) yn cyrraedd mewn car, sydd i’w ddisgwyl oherwydd ei leoliad. Fodd bynnag mae dros 10% yn seiclo, gyda nifer llai o gerddwyr a marchogion ceffylau. Dim ond 2 wnaeth gyrraedd ar drafnidiaeth cyhoeddus sy’n tynnu sylw at y diffyg isadeiledd presennol.

## GWEITHGAREDD PRESENNOL

Mae Bwlch Nant yr Arian yn denu ymwelwyr sy’n cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, a does dim syndod fod rhain yn canolbwyntio ar hamdden a’r amgylchedd naturiol. Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd a amlygwyd gan ein hatebwyr yw ‘cerdded’, tra bod ‘mynediad at natur’, ‘beicio mynydd’ ‘gwylio bwydo’r barcutiaid’ a’r ‘llonyddwch’ hefyd yn ymddangos yn amlwg. Mae’r safle yn boblogaidd gyda’r rhai sy’n cerdded eu cŵn a rhedwyr, ac fe’i defnyddir gan nifer fach o farchogion ceffylau.

Mae nifer sylweddol yn nodi ymweld â’r siop/caffi ynghyd â chymdeithasu fel rhesymau allweddol dros ymweld. Mae ychydig dros 10% o’r ymatebwyr yn gosod Iechyd/Adferiad/Gwellhad, mynychu digwyddiadau yn ogystal â Chelf a Ffotograffiaeth fel rhesymau dros ymweld.




O’r ymatebwyr ‘eraill’, roedd 6 yn cyfeirio at ddod â phlant ac wyrion i chwarae yn y goedwig neu yn y parc, ac fe soniwyd hefyd ychydig o weithiau am gasglu llus ynghyd â lle i ddod â ffrindiau. Soniwyd hefyd am ddysgu, nofio a ffyrdd-gwyrdd.

## ADEILAD Y CYN COMISIWN COEDWIGAETH CYMRU



Ar hyn o bryd mae cyn adeilad Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn wag. Mae'n adeilad unigryw gyda chladin pren ac wedi'i leoli ar ymyl clogwyn serth gan gynnig golygfeydd godidog ar hyd Cwm Melindwr tuag at Fae Ceredigion.


Mae'n hawdd i'w gyrraedd o'r maes parcio presennol ac heb ei ddefnyddio (ar wahân i fel storfa) ers i Gyfoeth Naturiol Cymru adleoli eu gwasanaethau ymwelwyr i'r Brif Ganolfan Ymwelwyr ynghyd â swyddfa fach tua deng mlynedd yn ôl (adleolwyd y staff oedd yno i swyddfa newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Aberystwyth). Fodd bynnag, mae'r adeilad wedi'i gynnal a'i wresogi yn ystod y cyfnod hwn, ac yn ôl arolwg strwythurol diweddar (*Atodiad E*) mae mewn cyflwr eithaf da ar wahân i'r rhandy bach ar yr ochr de-orllewinol a argymellwyd ei ddymchwel. Fe fyddai ei ddymchwel yn galluogi ehangu'r ardal ddecio awyr agored presennol (sydd angen ei adnewyddu).

Mae trydan, dŵr a charthffosiaeth yn weithredol yn yr adeilad. Mae cegin fach weithredol wedi'i lleoli wrth y brif fynedfa, dau doiled, a chawod. Mae'r cynllun presennol wedi'i greu gan waliau pared sydd ddim yn cymryd y pwysau, sy'n cynnig posibiliadau a hyblygrwydd arwyddocaol ar gyfer agor a newid y lle er mwyn creu y datblygiad newydd.

Mae llawr mesanîn ar ochr deheuol yr adeilad, sy'n cynnig lle ar lawr ychwanegol, ond yn anffodus nid oes mynediad ar gyfer pobl anabl.

## Y CYFLE

Ar hyn o bryd mae'r adeilad yn gaffaeliad sydd heb ei ddefnyddio digon, ond sydd â'r potensial i wella ac/neu arallgyfeirio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddefnyddwyr o'r gymuned leol ac ymwelwyr. Mae ganddo hefyd y potensial i arddangos ac i ddehongli tirlun ehangach Ceredigion a Mynyddoedd Cambria.




*(Cynllun Llawr Presennol: Catalina Architecture)*

## YR ACHOS DROS NEWID

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r ddadl dros newid. Y blaenoriaethau lleol, cyfleoedd, materion presennol sydd angen sylw, potensial yr effaith a'r buddiannau, ac yn olaf y gallu presennol i ddarparu'r newidiadau hyn. *Gweler Atodiad A am fwy o fanylion.*

### BLAENORIAETHAU: BETH MAE'R CYMUNEDAU LLEOL A'R DEFNYDDIWYR CYFREDOL EISIAU GWELD?

Mae'n allweddol fod unrhyw ddatblygiad newydd yn cynnig buddion sydd eu hangen, a bod galw amdanynt gan gymunedau lleol. Gyda'n ymgynghoriad (*Gweler Atodiad A)* mae unigolion, rhanddeiliaid, a defnyddwyr wedi datgan eu blaenoriaethau ar gyfer unrhyw ddatblygiadau ym Mwlch Nant yr Arian:

1. Adnodd ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr megis iechyd, lles, addysg a mwynhad.
2. Fe ddylai datblygiad newydd diogelu ac/neu hybu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd lleol.

Canfyddwyd fod rhain yn galw am fwy o weithredu ar frys na *'Chynyddu ymwybyddiaeth o'r tirlun, natur, a threftadaeth ddiwylliannol Mynyddoedd Cambria a Cheredigion',* a chreu '*cyfleoedd newydd ar gyfer yr economi leol'.* Yn y gweithdai canlynol, fe gytunodd y rhanddeiliaid lleol hefyd:

- Y dylai'r cyfleuster darparu a gwella'r cynnig ar gyfer pobl leol a mudiadau. Fodd bynnag, dylid cadw cydbwysedd sy'n cydnabod pwysigrwydd ymwelwyr i'r economi leol, a dylid adlewyrchu hyn mewn atyniad addas a chynaliadwy sy'n parchu natur y safle yn hytrach na 'thwristiaeth dorfol'.
- Fe ddylai unrhyw atyniad anelu i ddenu 'ymwelwyr o werth uchel' sydd â diddordeb yn elfennau craidd yr amgylchedd, yr hanes, y diwylliant a gweithgareddau'r awyr agored.
- Fe ddylai'r datblygiad anelu at hybu buddiannau iechyd a lles y trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Er bod datblygiad economaidd hefyd yn ddymunol, ni ddylai fod yn niweidiol i'r elfennau eraill.
- Fe fyddai galluogi cynnal rhaglen o ddigwyddiadau cymdeithasol ar gyfer teuluoedd yn gadarnhaol.

### YMATEB I WENDIDAU CYFREDOL

Ynglŷn â'r materion y gellir fynd i'r afael â nhw gyda datblygiad newydd yn yr adeilad gwag, un posibilrwydd yw llefydd ychwanegol i eistedd dan do ac yn yr awyr agored, ynghyd â llefydd i fwyta. Soniwyd yn aml am brinder lleoliad ar gyfer digwyddiadau cymunedol, diffyg lleoliad addysgol, dehongliad o dreftadaeth a natur yr ardal, a phrinder gweithgareddau dan do/tywydd gwlyb.

Mae absenoldeb cyfleusterau cawod ac ymolchi, a fyddai'n cael eu gwerthfawrogi gan feicwyr gan roi cyfle iddynt aros yn hirach ar y safle neu yn yr ardal petai'n bosibl iddynt ymolchi, gan gynyddu eu potensial i wario'n lleol. Cyfeiriodd nifer at brinder cyfleusterau llogi beiciau (a chadeiriau olwyn mecanyddol), storfa/trwsio offer, gyda rhai yn cyfeirio at Goed y Brenin fel esiampl.

**Nodyn:** *Canfyddwyd nifer o faterion eraill oedd yn ymwneud â safle ehangach Bwlch Nant yr Arian ond nad ydynt yn berthnasol i ail ddatblygu'r adeilad o dan sylw e.e. llwybrau a rennir, materion parcio ayyb. Mae rhain wedi'u cofnodi yn Atodiad A.*

### CYFLEOEDD AR GYFER ADEILADU AR GRYFDERAU CYFREDOL

Nid oes fawr o syndod fod y rhan fwyaf wedi enwi'r Llwybrau Gweithgaredd (cerdded, rhedeg, beicio), ynghyd â'r amgylchedd naturiol – gyda'r Barcutiaid Coch yn thema ailadroddus, ochr yn ochr â'r golygfeydd a thirwedd godidog. Fe fyddai datblygu cyfleuster a fyddai'n ychwanegu gwerth a gwella'r profiadau hyn yn ddatblygiad cadarnhaol.

Roedd y syniad o hygyrchedd ar gyfer pob oedran, gallu, a symudedd yn gryf, ynghyd â lleoliad, llonyddwch yr ardal a'r awydd i beidio â dinistrio hwn gyda gormod o ddatblygiad neu orlenwi. Gwelwyd y caffi/siop fel cryfder gan rai, er bod eraill eisiau gwella'r caffi, a rhai yn anymwybodol o fodolaeth y siop bresennol ac argaeledd cynnyrch lleol!!

Roedd nifer o sylwadau am y cyfleusterau da a diogel i blant, a'r potensial sydd gan y safle fel adnodd addysgu.

## CYFLE I DDARPARU BUDDION LLEOL

Mae awydd cryf ymhlith y defnyddwyr presennol i wella'r cyfleusterau heb newid natur y safle, felly mae achos cryf i unrhyw ddatblygiad newydd i gynyddu ac i wella y rhai sydd eisoes yn bodoli ac i werthfawrogi'r buddiannau. Wrth archwilio'r buddiannau presennol, '*mwynhad a chael hwyl*' ddaeth i'r brig ochr yn ochr â '*gwella iechyd corfforol.*' Dilynwyd rhain gan '*ymlacio*' a '*gwell iechyd meddwl*'. Roedd bron i hanner yn cydnabod fod '*ail-gysylltu â natur*' yn fuddiol, gyda thraean yn cydnabod *'buddion cymdeithasol'* y safle.

Nododd busnesau lleol a ymgysylltodd â'r ymgynghoriad ei bod/gallant elwa'n uniongyrchol o Fwlch Nant yr Arian. Nododd bron i hanner o'r rhain y potensial i werthu gwasanaethau neu gynnyrch ar y safle. Nododd dros chwarter fod ymwelwyr i Fwlch Nant yr Arian yn aros yn eu llety, a mynegodd 21% arall fod yr ymwelwyr yn ymweld â'u sefydliadau. Hefyd nododd nifer eu bod yn defnyddio (neu'n gallu defnyddio) y cyfleusterau ym Mwlch Nant yr Arian er mwyn cynnig profiadau i'w hymwelwyr/cleientiaid.

O'r budd y gallent fanteisio ar y datblygiad newydd, nododd y mwyafrif llethol y buddiannau cyffredinol o hybu'r ardal i ymwelwyr, nododd 40% y budd o werthu eu cynhyrchion, ac fe welodd dros 30% buddion o arwyddbostio ymwelwyr i'w busnesau. Roedd potensial defnyddio'r cyfleusterau yn fudd arall.

Roedd hefyd dros ugain o fudiadau yn cydnabod eu bod yn defnyddio Bwlch Nant yr Arian ar hyn o bryd er mwyn darparu gwasanaethau i'r gymuned. Roedd y rhan fwyaf yn ymwneud ag iechyd a lles (gan gynnwys therapi, gofal cymdeithasol a gwasanaethau ieuenctid), neu addysg. Roedd eraill yn cynnwys darparwr gweithgareddau a mudiadau cadwraethol.

Roedd y rhan fwyaf yn cydnabod gwerth addysgiadol y safle, yr amgylchedd naturiol, a'r amrywiaeth o weithgareddau fel y rheswm o ddefnyddio'r (ac yn fuddiol i'w defnyddwyr) safle. Roedd y rhesymau penodol eraill am ddefnyddio'r safle yn cynnwys y caffi ynghyd â hygyrchedd y toiledau i'r anabl a chyfleusterau eraill. Pan ofynnwyd pa ddatblygiadau byddai'n fuddiol iddynt (a'u cleientiaid) fel darparwr gwasanaethau, y sylw mwyaf poblogaidd oedd ystafell addysgu a/neu le dan do y gellid ei logi.

## DATBLYGIADAU A WRTHWYNEBIR

Y datblygiadau a wrthwynebwyd yn fwyaf ffyrnig oedd unrhyw beth a fyddai'n niweidio'r amgylchedd naturiol (neu'r olygfa), rhywbeth a fyddai'n or-fasnachol, neu ddatblygiad a fyddai'n tarfu ar y llonyddwch (trwy sŵn/golau ayyb).

Hefyd bron ar frig y restr oedd unrhyw beth a fyddai'n annog mwy o weithgareddau gyrru oddi ar y lon *(Odd-roading)* a cherbydau modur. Hefyd unrhyw atyniad a fyddai'n denu torf o ymwelwyr ychwanegol i'r safle, gyda phwysau ar barcio, cynnydd traffig, a gwarchod cymeriad y safle allweddol yn themau allweddol yn hyn o beth.

Roedd peth gwrthwynebiad i unrhyw beth a ystyrir yn 'annaturiol' neu or-ddatblygiad. Ynghyd â datblygiadau preifat na fyddai o fudd i'r cyhoedd/cymuned, a thai/llety gwyliau.

## CAPASITI I NEWID

Fel rheolwyr presennol y safle gyffredinol, mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru y gallu i symud ymlaen a datblygu unrhyw ddatblygiad posibl. Mae partneriaid eraill megis Cyngor Sir Ceredigion a fyddai hefyd yn gallu darparu cefnogaeth ychwanegol trwy ddull partneriaeth i'r datblygiad.

Mae posibilrwydd o roi'r adeilad ar brydles, neu ran ohono, i fudiad tenantiaid neu i fusnes sy'n cynnig gwasanaethau i ymwelwyr. Neu fel canolfan i fenter leol. Fe fydd angen rheoli'r trefniant hwn.

Fe fydd rheolaeth hir dymor yr adnodd yn faich ychwanegol ar dîm presennol Cyfoeth Naturiol Cymru. Fe fydd angen darparu'r gost a'r galwadau arwyddocaol ychwanegol ar amser y staff a/neu adnoddau trwy ddatblygu ffynonellau incwm newydd, neu i weithio gyda phartner/tenant er mwyn staffio'r cyfleuster yn ystod oriau agor.

## DEWISIADAU LLYWODRAETHIANT

Mae tri dewis posibl er mwyn llywodraethu cyfleuster newydd:

1) **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Rheolir y cyfleuster gan Gyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'r safle ehangach. Fe fyddai hwn yn sicrhau rheolaeth unffurf ar draws y safle i gyd gan osgoi gwrthdaro posibl. Cyfoeth Naturiol Cymru i gadw'r holl incwm a'i ail fuddsoddi yn y safle, a hefyd yn hwyluso rhannu adnoddau. Fodd bynnag fe fyddai'n rhoi baich ychwanegol ar y capasiti presennol ac fe all gyfyngu ar y cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y datblygiad.
2) **Partner Allanol:** Rhoi rheolaeth y cyfleuster ar log i fudiad allanol a fyddai'n cymryd yr awenau a thalu tâl blynyddol i Gyfoeth Naturiol Cymru. Fe fyddai hyn yn lleddfu'r baich ar gynhwysedd Cyfoeth Naturiol Cymru; fodd bynnag fe all arwain at wrthdaro buddiannau posibl os bydd y partner allanol yn dilyn ei amcanion ei hun (e.e. cynyddu nifer yr ymwelwyr yn eithriadol er mwyn hybu proffidioldeb) gan wneud datblygiad cydlynol Bwlch Nant yr Arian fel cyrchfan cynaliadwy yn fwy cymhleth.
3) **Mudiad 'nid-er-elw' newydd:** Sefydlu mudiad 'nid-er-elw'yn benodol er mwyn datblygu'r cyfleuster newydd, gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid lleol/rhanddeiliaid yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd. Prif fudd y trefniant hwn fydd i agor llwybrau i grantiau trydydd sector a chyllid cyfalaf lle nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gymwys. Fodd bynnaf, nid yw'r incwm tybiedig yn ddigon i dalu am y swydd newydd i'w reoli, felly mae'n debygol y bydd angen cytundeb rheolaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

### EIN HARGYMHELLIAD

Ein hargymhelliad ar y pwynt hwn yw eich bod yn parhau gyda'r trefniadau presennol (Dewis 1) gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio â phartneriaid lleol i symud y datblygiad ymlaen i'r cyfeiriad sy'n gweithio iddyn nhw fel mudiad ac amcanion ehangach y safle. Wrth i'r cynlluniau datblygu ymhellach, ac os yw statws Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei rwystro rhag arianu y datblygiad, yna dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o greu mudiad/ymddiriedolaeth hyd braich 'nid-er-elw' fel modd i ddatblygu. Rydym ond yn argymell hwn os yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y byddai'n addas o fewn eu fframwaith lywodraethiant bresennol.

## CYD-DESTUN STRATEGOL

Mae'r adran hon yn crynhoi'r cyd-destun strategol Cenedlaethol a Rhanbarthol ar gyfer datblygiad ym Mwlch Nant yr Arian. Bydd ymochri gyda'r rhain yn gynorthwy i ddarparu bwriadau ehangach ac yn cryfhau'r achos drosgefnogaeth gan gyllidwyr y sector gyhoeddus a'r awdurdodau lleol.

### CENEDLAETHOL

Allbwn allweddol o **Gymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040** yw '*Cymru lle mae pobl yn byw mewn llefydd gwledig bywiog gyda mynediad at gartrefi, swyddi a gwasanaethau.*' Cyfeiria bod *'Y diwylliant, y dreftadaeth a'r amgylchedd yng Nghymru yn chwarae rôl gadarnhaol, fodern yn yr economi trwy ddenu diddordeb a gwariant ymwelwyr'.*

Mae'r Cynllun Gweithredu Economaidd '**Ffynniant i bawb**' yn nodi twristiaeth fel un o'r pedwar sector craidd i ganolbwyntio arno, ynghyd â bwyd, manwerthu a gofal. Mae'n pwysleisio'r angen i gofleidio gwahaniaethau a chyfleon rhanbarthol ac i gydweithio gyda phartneriaid lleol i greu gwell canlyniadau.

Mae Bwlch Nant yr Arian yn adnodd naturiol werthfawr, a bydd cynorthwy a chyllido yn cael eu gyrru'n rhannol gan bwylais Llywodraeth Cymru ar 'Reolaeth Gynaliadwy Adnoddau Naturiol' fel y gosodir yn **'Neddf yr Amgylchedd (Cymru)'**. Oddi mewn i gyd-destun ailddatblygiad posibl cyn adeilad Comisiwn Coedwigaeth Cymru, fe fydd unrhyw ddatblygiad sy'n creu buddion economaidd (twristiaeth, tyfiant economaidd ac ati) a/neu buddiannau cymdeithasol (addysg, cyfleusterau cymunedol ac ati) trwy elwa'n gynaliadawy ar adfer/gwella'r amgylchedd naturiol yn cael ei weld fel enghraifft dda o'r agwedd yma.

Byddai datblygiad ym Mwlch Nant yr Arian hefyd mewn sefyllfa i gyfrannu at rai o'r saith o 'Gyrchnodau Llesiant' yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, gan ddibynnu ar ba opsiwn a ddewisir ar gyfer y dyfodol. Byddai unrhyw datblygiad sy'n darparu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, cyfleon gwaith newydd, cynnydd economaidd a/neu gyfleon addysg trwy ffyrdd gynaliadwy yn cyfrannu tuag at nod '*Cymru ffyniannus*'*.* Tra bo cynnal neu wella'r amgylchedd leol yn cyfrannu at *'Gymru Hydwyth'*.

Byddai prosiect yn annog cyfranogiad cynyddol mewn gweithgareddau corfforol megis cerdded, rhedeg neu feicio yn cyfrannu at '*Gymru Iachach*', a thra'n hyrwyddo treftadaeth a diwylliant yn cyfrannu at y nod o '*Gymru o Ddiwylliant Byw a Iaith Gymraeg Ffyniannus.*' Byddai gwelliannau i wasanaethau cymunedol yn cyfrannu at '*Gymru o Gymunedau Cydlynol*' ac yn cymryd camau cynaliadwy hir-dymor tuag at *'Gymru Gyfrifol Fyd-Eang'*.

## RHANBARTHOL

Mae **Cynllun Datblygiad Lleol Ceredigion (LDP) 2007-22** yn cyfarwyddo datblygiad yng Ngheredigion, ac mae llawer o'i amcanion yn berthnasol i unrhyw ddatblygiad ym Mwlch Nant yr Arian, gan gynnwys '*I hyrwyddo economi wledig gynhwysol, gynaliadwy a blaengar er budd Ceredigion a'i chymunedau lleol*'(Ob2); '*I hyrwyddo ac annog sector dwristiaeth gynaliadwy, eco-gyfeillgar gydol y flwyddyn…sy'n darparu ar gyfer rhychwant eang o farchnadoedd ac sy'n cynnig cyfleusterau ar gyfer pob tymor*' (Ob4); '*I wella a sicrhau darpariaeth a diogelwch lefel addas o fynediad at wasanaethau addysg, iechyd, diwylliant, hamdden, cymdeithasol, cymunedol, chwaraeon a gwasanaethau a chyfleusterau hamdden*' (Ob7); '*I atal colled ac i wella bioamrywiaeth a'i gysylltedd ar draws Ceredigion…tra'n annog mynediant i safleoedd o ddiddordeb cadwriaethol; ar yr amod bod eu hygrededd ecolegol yn cael ei ddiogelu*' (Ob12).

Mae Polisi LU17 yn cyfeirio at Gyfleusterau Twristiaeth/Atyniadau, gan ddatgan os ydynt yn meddu ar hygyrchedd ddigonol, y byddant yn cael eu cefnogi os ydynt yn ehangu'r sylfaen dwristiaeth, yn fuddiol i'r gymuned leol, yn cynnwys mesurau eco-gyfeillgar [e.e. cynhyrchu egni gwyrdd ar raddfa fach], darparu gweithgareddau tywydd gwlyb. Mae hefyd yn datgan *'Ni fydd cynigion a fyddai'n cael effaith negyddol sylweddol ar yr adnodd, lleoliad, cyd-destun a nodweddion twristiaeth sydd eisioes yn bodoli yn cael eu caniatáu.*'

Mae Polisi LU22 yn cyfeirio at ddarpariaeth gymunedol, ac ymhlith pethau eraill yn pwysleisio ystyriaeth o gyfleusterau aml-ddefnydd. Dywed '*Er mwyn I gymunedau fod yn gynaliadwy mae angen mynediad at rychwant o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn nhermau llefydd i weithio, byw, siopa, cymdeithasu yn ogystal â lleoliadau ar gyfer hamdden, gweithgareddau chwaraeon, llefydd agored, addysg […] a gofal iechyd.*'

Mae Polisiau DM03 and DM04 yn pwysleisio'r angen i ddatblygiadau i ddarparu cyfleon ac isadeiledd ar gyfer ffyrdd gynaliadwy o drafnidiaeth.

Mae Strategaeth Economaidd – **Cyfnerthu Economi Ceredigion: Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35** – yn gosod allan sut y bydd rhanddeiliaid yn cydweithio tuag at sicrhau cynnydd gref, gynaliadwy a mwy hydwyth ar gyfer Ceredigion, wedi ei greu a'i rannu gan bawb.

Gan amlinellu ei phrif egwyddorion a'i chymhellion, mae'n datgan bod '*y strategaeth yn cael ei gyrru gan y cyfleon sydd eisioes yn bodoli er mwyn cynyddu'r economi,*'ac mae cyfle o'r math yn bodoli ar raddfa fach ym Mwlch Nant yr Aria.'

Mae '*diogelu a gwella ein tirlun, bioamrywiaeth a lleihau ymhellach achosion niweidiol newid hinsawdd*' yn bolisi craidd, fel ag yw'r '*angen i ddiogelu a gwella ein diwylliant unigryw a'n hunaniaeth gan gynorthwyo i gyfnerthu twf a hydwythedd yr iaith Gymraeg*.' Yma eto, mae Bwlch Nant yr Arian yn darparu cyfle i gyfrannu at y meysydd hyn.

Mae yna hefyd gyfleon i gyfrannu at flaenoriaethau allweddol y strategaeth:

- Pobl: trwy ddatblygu adnodd sy'n gwneud yr ardal yn le gwell i bobl i fyw, gweithio a thyfu.
- Lle: wrth wella cyfleusterau ardaloedd gwyrdd Bwlch Nant yr Arian, gyfrannu at gynlluniau safleoedd lleol a chreu lleoliad bywiog i ymwelwyr ac ar gyfer digwyddiadau.
- Menter: darparu isadeiledd er mwyn sefydlu busnesau bychain, yn enwedig oddi mewn i'r economi ymwelwyr.
- Cysylltedd: gwella cysylltiadau digidol, hyrwyddo ac annog cerdded, seiclo a thrafnidiaeth carbon isel.

## DATBLYGIAD NEWYDD: CANFOD DEWISIADAU POSIBL

Cafodd y cynigion cychwynnol a ddaeth yn sgil yr ymgynghoriad cymunedol eu mireinio i restr hir trwy ychydig o weithdai rhanddeiliaid. Cafodd y rhain eu hasesu yn erbyn y meini prawf a gytunwyd gan y rhanddeiliaid lleol trwy broses gwerthuso dewisiadau (gweler Atodiad B) er mwyn canfod y rhai oedd â'r potensial mwyaf i ymateb i anghenion lleol ac i gyflwyno'r buddion a ddymunwyd.

### Y RHESTR HIR


Roedd y rhestr hir cychwynnol o gynigion unigol ar gyfer cyfleusterau fel a ganlyn:

| Safle | Cynnig | Safle | Cynnig |
|---|---|---|---|
| 1 | Gofod cymunedol/digwyddiad/gofod addysgol | =9 | Siop offer awyr agored |
| 2 | Cyfleuster Lles ac Iechyd | =9 | Unedau busnes |
| 3 | Dehongli treftadaeth a natur | =9 | Safle ymarfer corff dan do |
| 4 | Canolfan gelf a chrefft | =12 | Canolfan ymwelwyr |
| 5 | Llogi / trwsio beic (a glanhau) | =12 | Eisteddle dan do ychwanegol |
| 6 | Cyfleusterau cawod ac ymolchi | =12 | Atyniad arall/cyfleuster |
| =7 | Ardal chwarae dan do i blant | Ychwanegol | Beiciau statig |
| =7 | Cyfleuster addysgol bwrpasol | Ychwanegol | Penwisg '*VR*'/ ffilmiau drôn. |

### Y RHESTR FER

I ddarparu'r buddion a ddymunir, bydd angen i'r datblygiad arfaethedig gyfuno rhai o'r cyfleusterau a gynigiwyd i becyn cyfunol sy'n gynaliadwy yn ariannol yn yr hir dymor ac yn bosibl oddi mewn i gwmpas yr adeilad.

Rydym wedi adnabod nifer o gyfuniadau posibl yr ydym o'r farn eu bod yn werth eu harchwilio ymhellach parthed eu hyfywdra a'u cynaliadwyedd ariannol. Rhestrir ac eglurir y rhain yn y diagram cynllunio sydd gyferbyn:




1. Canolfan ymwelwyr gyda staff yn hyrwyddo'r safle ynghyd â'r rhanbarth ehangach gan gynnwys, dehongli natur a threftadaeth leol ynghyd â gofod gymunedol amlbwrpas.
2. Cyfleuster llai heb staff yn cyfuno dehongliad treftadaeth a natur leol Bwlch Nant yr Arian a'r rhanbarth ehangach, eto â gofod gymunedol amlbwrpas.
3. Gofod cymunedol amlbwrpas eang a fyddai'n hwyluso'r rhan fwyaf, os nad y cyfan o'r cyfleusterau eilradd pe bai angen.
4. Canolfan gelf a chrefft a allai gynnwys gweithdai artist, allfa adwerthu, swyddfa ar gyfer busnes lleol ynghyd ag oriel.
5. Cyfleuster hygyrch ac amlbwrpas a fyddai'n cynnwys gofod masnachol (e.e. masnach, busnes bach, artist preswyl ac ati), dehongli treftadaeth leol a natur, gyda gofod gymunedol amlbwrpas.

Rhestrir hefyd cyfleusterau eilradd a nodwyd eu bod yn ddigon bach o ran maint y gellid eu cynnig ar y cyd â'r brif ddatblygiad oddi mewn i gwmpas yr adeilad cyfredol. Byddent yn darparu buddion i grwpiau arbenigol/cynulleidfaoedd fel rhan o'r brif ddatblygiad, gan gynnig budd ychwanegol.

| | |
|---|---|
| • Golchfa beic (tu allan) | • Cyfleusterau ymolchi / cawodi |
| • Eisteddle dan do | • Gweithfannau pell |

## CANFOD YR OPSIWN DEWISOL

Wrth ystyried yr opsiwn dewisol ar gyfer datblygiad yr adeilad o'r dewisiadau ar y rhestr fer, roeddem wedi seilio'n syniadau ar y canlynol:

### DARPARU BLAENORIAETHAU LLEOL

Fel y nodwyd yn yr achos dros newid (tudalen 7), sef:

1. Adnodd ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr megis iechyd, lles, addysg a mwynhad.
2. Dylai datblygiad newydd adfer a/neu hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r amgylchedd lleol.

### CYNALIADWYEDD ARIANNOL

Mae angen sicrwydd gymharol y byddai'r datblygiad dewisol yn gallu cynhyrchu digon o incwm cyson i'w gynnal ei hun yn yr hir dymor.

### HYDWYTHEDD A HYBLYGRWYDD

Gan ddilyn o'r cynaliadwyedd ariannol, credom y byddai ffynhonellau incwm amryfal yn fwy buddiol gan ddarparu cynllun busnes mwy hydwyth. Ystyriwyd hefyd yr angen i'r adeilad fod yn hydwyth i ymateb i ofynion a newidiadau lleol dros amser.

### Y CYD-DESTUN STRATEGOL

Er mwyn sicrhau cefnogaeth a chyllido mae angen i'r datblygiad i wneud hynny'n unol â pholisïau a blaenoriaethau lleol, yn benodol oddi mewn i Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion (LDP) (tudalen 9). Mae hwn yn galw am gyfleusterau amlbwrpas, cyfleusterau gydol y tymhorau ar gyfer ymwelwyr, darparu mynediad i wasanaethau lleol a chyfleon gwaith mewn ardaloedd cefn gwlad, darparu cyfleon addysgol, diwylliannol a hamdden, gan osgoi effeithio'n negyddol ar safleoedd twristiaeth sydd eisioes mewn bodolaeth.

### TYBIAETHAU


Rydym wedi gwneud cyfres o dybiaethau sy'n greiddiol i'n meddwl a'n modelu ariannol. Petai'r amodau'n newid a bo angen adolygu'r rhain, mae'n bwysig fod y rhagamcaniad ariannol hefyd yn cael ei uwchraddio er mwyn sicrhau fod y cynnig yn ddichonadwy.


- Byddai'r gwaith cyfalaf yn cael ei gyllido gan NRW, partneriaid, a/neu ffynhonnell grant (felly dim angen cynhyrchu incwm i ateb y costau hyn).
- Gwneir y glanhau o dan gytundeb canolog NRW, gyda chostau ychwanegol yn cael eu hamcangyfrif tua £500 y mis (nid oes ffigyrau pendant ar gael).
- O ystyried defnydd cyfredol ar draws y safle, amcangyfrifir fod costau rhedeg ynni y cyfleuster newydd oddeutu £4,000 y flwyddyn.
- Ar sail costau cyfredol o £500 y flwyddyn ar gyfer gwaith cynnal cyfredol, rydym yn amcangyfrif £5000 i adlewyrchu'r defnydd cynyddol.
- Byddai'r gost i Gyfoeth Naturiol Cymru o gyflogi aelod staff llawn amser ychwanegol yn £36,000 yn cynnwys costau.
- Cost cynllunio ar gyfer dehongliad i'w amcangyfrif ar £20k, gyda gosod mewn lle am £1,500 y metr sgwar.
- Derbyniad lloeren/rhwydwaith 5G wedi'i gostio ar £2,000 i'w osod, ynghyd â £100 y mis.
- O ystyried unedau tebyg sydd ar y farchnad o fewn 40 milltir i Aberystwyth (Ionawr 2022), byddai uned fasnachol yn cael ei rentu fel gweithdy / gofod swyddfa yn cynhyrchu oddeutu £9.50 y droedfedd sgwar yn flynyddol.
  - Rydym wedi caniatáu amser I ddod o hyd I denantiaid ac wedi amcan: prewyliaeth o 50% ar ol 6 mis; 75% ar ol 12 mis; a 100% ar ol 18 mis.
- Byddai gofod gymunedol amlbwrpas/addysgol yn creu £11,920 y flwyddyn yn seiliedig ar y defnydd isod o fewn 3 mlynedd:
  - Llogi am ½ diwrnod @£80 (Blwyddyn 1af : unwaith yr wythnos 3ydd flwyddyn: dwywaith yr wythnos)
  - Llogi am ddiwrnod @£150 (Blwyddyn 1af : unwaith y mis, 3ydd flwyddyn : dwywaith y mis).
- Mynediad at weithfan pell am 8 awr yr wythnos @£5 yr awr, yn creu £2,000 y flwyddyn.
- Clo bysellbad (neu debyg) i alluogi mynediad 'allan o oriau' i denantiaid / mudiadau cymunedol, gan leihau'r baich ar staff Cyfoeth Naturiol Cymru.

## YR OPSIWN A GYNIGIR

Yr opsiwn a gynigir i'w flaenoriaethu yw datblygiad cymysg yn cynnwys gofod cymunedol amlbwrpas/addysgol, dehongliad o'r safle a'r ardal ehangach, gyda chyfleusterau toiled a chawod. Mae'n cynnwys gofod a all gael ei logi fel gweithdy neu ofod swyddfa, gan roi hyblygrwydd i ymateb i gyfleon a gofynion.  Amlinellir manylion isod, wedi eu darlunio gan god lliw y cynlluniau llawr ynghyd a'r rhagolygon ariannol ar y dudalen ddilynol.

- **Gofod amlbwrpas** at ddefnydd i'w logi gan fudiadau cymunedol ac addysgol yn darparu'r gwasanaethau a ddymunir fwyaf, gyda budd fel gofod cyfarfod/digwyddiad/ystafell ddosbarth/cynhadledd.  Wedi'i leoli yn yr adain ogleddol gan fwynhau golygfeydd ysblennydd trwy'r ffenestri mawr dros y dyffryn i'r arfordir. Gyda darpariaeth o 68m$^2$ ar gyfer 60 yn eistedd (ar ffurf awditoriwm) gyda mynediad hygyrch trwy ddrws yr ochr. *[Glas]*
- **Gofod dehongli canolog/Oriel** Yn darparu gwybodaeth ynghylch y safle ehangach, bywyd gwyllt, hanes a threftadaeth. Awgrymwn fod hwn yn cynnwys elfennau gweledol a rhyngweithiol, gan gynnwys gemau a fideo, gan ddarparu adnodd tywydd gwlyb ar gyfer pob oedran. Yn 65m$^2$ mae'n darparu gofod croesawgar eang ar gyfer y cyhoedd o'r brif fynedfa, gan arawin at y ffenestri sy'n cynnig golygfeydd gwych dros y dyffryn.  *[Gwyrdd]*
- **Gofod masnachol**: Mae rhan o'r gwagle hwn wedi'i wahanu oddi wrth y gofod cyhoeddus gan wal solet, yn darparu diogelwch a lleihau sŵn. Potensial ar gyfer unedau masnachol, gofod swyddfa neu ofod celf a chrefft. Mae mynediad ychwanegol i'r gofod hwn trwy ddrws ochr sy'n cynnig mynediad rhwydd i denantiaid. Gellid defnyddio'r llawr mesanîn ar gyfer cyfarfodydd/ar gyfer gweithdy, ond mae mynediad i'r llai abl yn gyfyngedig. Cyfanswm 93m$^2$ (100 troedfedd sgwar)yn ogystal â storfa. *[Melyn]*
- **Cyfleuster toiledau a chawod yn cynnwys** 4 cuddygl a sinc (un toiled i'r anabl), a 2/3 cawod.Mae'n defnyddio'r cysylltiad dŵr a charffosiaeth sydd eisioes yn bodoli, ac mae wedi ei leoli ger y fynedfa er mwyn atal cludo mwd a llaid drwy'r cyfleuster. (25m$^2$) *[Piws]*





**Nodiadau ychwanegol**

- Gellid gosod golchfa feic y tu allan i adeilad y gawod, ar yr amod fod draeniad yn osgoi llygru y cwrs dŵr.
- Rhandy ychwanegol *[Coch]* i'w ddymchwel gan atgyweirio a helaethu yr ardal o ddecin presennol gan ddarparu eisteddle ychwanegol (opsiwn o godi canopi).
- Sefydlu cysylltiad lloeren/rhyngrwyd 5G ar gyfer y datblygiad newydd a'r ganolfan ymwelwyr sydd eisioes yno: galluogi cysylltedd i'r ofod swyddfa ynghyd â gweithio o bell.
- Gall gweithfan o bell gael ei osod yn y gofod swyddfa neu yn y caffi presennol. Byddai'r gost ar gyfer y cysylltiad WiFi yn hytrach na llogi desg.

## Y SAIL RESYMEGOL

Mae'n ymddangos yn annhebygol y gallai datblygiad arfaethedig newydd yn gallu creu y gwarged o £36,000 angenrheidiol i gyllido swydd amser llawn newydd, sy'n negyddu'r posibilrwydd o ganolfan ymwelwyr wedi ei staffio ar hyn o bryd gan y byddai'n ormod o risg. Gellid treialu potensial hwn trwy ddefnyddio gwirfoddolwyr a thrwy dreialu  mesurau eraill o godi cyllid, e.e. wrth fwcio gweithgareddau lleol ar ran darparwyr fe allech godi'r incwm yn gynaladwy i lefel a allai fod â'r potensial i gyllido swydd rhan amser/ tymhorol.

Byddai busnes manwerthu Celf a Chrefft yn y gofod masnachol yn ddïau yn denu ymwelwyr newydd gan gynnig elfen ychwanegol i'r safle. Fodd bynnag, gyda'r sŵn troed lleol cyfredol mae yna risg na fyddai'n ddigonol i gynnal menter adwerthu masnachol.  Byddai darparu gofod masnachol hydwyth a allai hefyd fod yn swyddfa yn lleihau'r risg, gan roi cynllun adfer i sicrhau fod yna ffynhonnell incwm i ateb costau rhedeg y cyfleuster.

Mae'r elfen ddehongli yn cydsynio ac yn fudd ychwanegol i'r lleoliad, tra hefyd yn darparu atyniad addysgol pob tymor, yn enwedig o'i gysylltu â menter adwerthu neu fenter 'celf a chrefft' masnachol. Gyda'r gofod amlbwrpas/addysgol yn darparu ar gyfer anghenion lleol gan gynnwys gofod ystafell ddosbarth dan do, yn creu incwm gyda'r posibilrwydd ychwanegol o gael ei ddefnyddio fel gofod oriel.

Yn olaf, mae'r cawodydd yn darparu gwell cyfleusterau ar gyfer beicwyr. Byddai gwella'r elfen hon o'r atyniad yn galluogi pobl i aros yn yr ardal yn hirach gan ymweld ag atyniadau eraill, felly'n cynyddu cyfnodau arhosiadau a'r cyfleon am wariant lleol.

Mae dymchwel y rhandy yn golygu y gellir ehangu ac adnewyddu'r decio sydd yno ar hyn o bryd, gan ddarparu eisteddle awyr agored (o bosib wedi'i gysgodi) yn man mwya trawiadol y safle.

## GWARIANT CYFALAF

Seiliedig ar adroddiad 2020 gan Roberts Building Consultants ac amcangyfrifon gan Minerva Heritage, mae'r amlinelliad costau cyfalaf fel a ganlyn.

| Elfen | Cost |
|---|---|
| Dymchwel rhannol (rhandy), atgyweirio ac estyn y fynedfa: | £350k - £650k |
| Dyluniad gofod dehongli: £20k | £20k |
| Gosod cyfarpar dehongli @£1,500 per $m^2$: | £135k |
| Band eang/ lloeren/ symudol | £2,000 |

**Nodyn:** Amcangyfrifon yw'r uchod ac yn wyneb marchnad sy'n newid yn gyflym bydd angen chwilio prisiau newydd wedi i gynlluniau manwl cael eu llunio.

## RHAGAMCANIAD CYLLIDOL 3 MLYNEDD AR GYFER YR OPSIWN DEWISOL - CRYNODEB

| Rhagamcan Cyllidol 3 Blynedd - Crynodeb | | | |
|---|---|---|---|
| | **Blwyddyn 1af** | **2il flwyddyn** | **3edd blwyddyn** |
| **Income** | | | |
| Uned Fasnachol | £2,376.00 | £8,316.00 | £9,504.00 |
| Gofod Amlbwrpas | £5,960.00 | £8,940.00 | £11,920.00 |
| Gweithio o Bell | £2,000.00 | £2,000.00 | £2,000.00 |
| | | | |
| **Cyfanswm** | £10,336.00 | £19,256.00 | £23,424.00 |
| | | | |
| **Gwariant** | | | |
| Gwasanaethau | £4,000.00 | £4,000.00 | £4,000.00 |
| Cynnal a Chadw | £5,000.00 | £5,000.00 | £5,000.00 |
| Rhyngrwyd | £1,200.00 | £1,200.00 | £1,200.00 |
| Glanhau | £18,000.00 | £6,000.00 | £6,000.00 |
| | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| **Cyfanswm** | £16,200.00 | £16,200.00 | £16,200.00 |
| | | | |
| **Balans** | **-£5,864.00** | **£3,056.00** | **£7,224.00** |

| Rhagamcan Cyllidol 3 Blynedd | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn 1af | | | | 2il Flwyddyn | | | | 3edd Blwyddyn | | | |
| | Ch 1 | Ch 2 | Ch 3 | Ch 4 | Ch 1 | Ch 2 | Ch 3 | Ch 4 | Ch 1 | Ch 2 | Ch 3 | Ch 4 |
| **Income** | | | | | | | | | | | | |
| Uned Fasnachol | £0.00 | £0.00 | £1,188.00 | £1,188.00 | £1,782.00 | £1,782.00 | £2,376.00 | £2,376.00 | £2,376.00 | £2,376.00 | £2,376.00 | £2,376.00 |
| Gofod Amlbwrpas | £1,490.00 | £1,490.00 | £1,490.00 | £1,490.00 | £1,490.00 | £2,980.00 | £1,490.00 | £2,980.00 | £2,980.00 | £2,980.00 | £2,980.00 | £2,980.00 |
| Gweithio o Bell | £500.00 | £500.00 | £500.00 | £500.00 | £500.00 | £500.00 | £500.00 | £500.00 | £500.00 | £500.00 | £500.00 | £500.00 |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | £1,990.00 | £1,990.00 | £3,178.00 | £3,178.00 | £3,772.00 | £5,262.00 | £4,366.00 | £5,856.00 | £5,856.00 | £5,856.00 | £5,856.00 | £5,856.00 |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Gwariant** | | | | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau | £1,000.00 | £1,000.00 | £1,000.00 | £1,000.00 | £1,000.00 | £1,000.00 | £1,000.00 | £1,000.00 | £1,000.00 | £1,000.00 | £1,000.00 | £1,000.00 |
| Cynnal a Chadw | £1,250.00 | £1,250.00 | £1,250.00 | £1,250.00 | £1,250.00 | £1,250.00 | £1,250.00 | £1,250.00 | £1,250.00 | £1,250.00 | £1,250.00 | £1,250.00 |
| Rhyngrwyd | £300.00 | £300.00 | £300.00 | £300.00 | £300.00 | £300.00 | £300.00 | £300.00 | £300.00 | £300.00 | £300.00 | £300.00 |
| Glanhau | £1,500.00 | £1,500.00 | £1,500.00 | £1,500.00 | £1,500.00 | £1,500.00 | £1,500.00 | £1,500.00 | £1,500.00 | £1,500.00 | £1,500.00 | £1,500.00 |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | £4,050.00 | £4,050.00 | £4,050.00 | £4,050.00 | £4,050.00 | £4,050.00 | £4,050.00 | £4,050.00 | £4,050.00 | £4,050.00 | £4,050.00 | £4,050.00 |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Balans** | -£2,060.00 | -£2,060.00 | -£872.00 | -£872.00 | -£278.00 | £1,212.00 | £316.00 | £1,806.00 | £1,806.00 | £1,806.00 | £1,806.00 | £1,806.00 |

**Nodiadau**

Rydym wedi bod yn geidwadol gyda'r ffigyrau incwm ac wedi defnyddio cyfraddau llogi sydd yn is na rhai Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu safleoedd eraill, ond sy'n debyg i safleoedd eraill megis Canolfan Ymwelwyr Cwm Elan.

Yn olaf, er nad yw'n gynwysiedig yn y cyfrifiadau, mae'r gwarged posib a ddangosir yn y rhagamcaniadau hyn yn awgrymu y gellid ariannu swydd rhan amser/tymhorol dros fisoedd prysur yr haf er mwyn gweithio'n agos gydag ymwelwyr (neu i weithio gydag ysgolion yn ystod misoedd tawelach y gaeaf).

*Mae'r tabl cyferbyn yn dangos graddfeydd cyfredol (Ionawr 2022) ar gyfer rhenti unedau masnachol o fewn 40 milltir i Aberystwyth. Rydym wedi amcangyfrif y raddfa £9.50 / troedfedd sgwar flynyddol ar gyfer yr unedau arfaethedig ym Mwlch Nant yr Arian.*

| Location | Type | Monthly | Annual | Annual / square foot |
|---|---|---|---|---|
| Carmarthen | Office | £563.00 | £6,750.00 | £4.91 |
| Welshpool | Office | £833.00 | £10,000.00 | £5.08 |
| Carmarthen | Office | £545.00 | £6,550.00 | £5.60 |
| Llanbrynmair | Light Industrial | £87.50 | £1,050.00 | £7.50 |
| Porthmadog | Office | £487.50 | £5,850.00 | £8.47 |
| Aberystwyth | Retail | £2,500.00 | £30,000.00 | £9.75 |
| Carmarthen | Office | £416.00 | £5,000.00 | £12.00 |
| Aberystwyth | Retail | £700.00 | £8,400.00 | £12.00 |
| Carmarthen | Office / Retail | £625.00 | £7,500.00 | £15.00 |
| Carmarthen | Commercial | £438.00 | £5,250.00 | £16.30 |
| Cardigan | Office (Fully Serviced | £1,000.00 | £12,000.00 | £19.20 |
| Aberystwyth | Retail | £2,916.00 | £35,000.00 | £24.93 |
| Aberystwyth | Retail | £800.00 | £9,600.00 | £32.00 |
| Aberystwyth | Retail | £2,666.00 | £32,000.00 | £36.28 |

*1 metr sgwar = 10.76 troedfedd sgwar

## CYNLLUN GWEITHREDU

Mae'r cynllun gweithredu bras isod yn ganllaw i dynnu sylw at y camau allweddol y bydd angen arnoch eu cymryd i ddatblygu a gwireddu'r cynnig a amlinellir yn yr astudiaeth hon:

1. Cyflwyno'r cynigion i'r gymuned: cario'r broses gydweithredol a chynhwysol ymlaen wrth gyflwyno'r cynigion a derbyn adborth cyn cyhoeddi eich bwriadau.
2. Gweithio'n agos â phartneriaid a'r cyrff priodol. Gweithio gydag unrhyw bartneriaid a all fod yn ddarparwyr posibl o'r cychwyn cyntaf. Awgrymwn sicrhau cyngor cyn gwneud cais cynllunio er mwyn canfod unrhyw broblemau a chynnwys yr Awdurdod Gynllunio yn gynnar yn y broses.
3. Canfod ffynonellau ariannu posibl a datblygu strategaeth syml i godi cyfaIaf er mwyn creu cynllun gweithredu clir.
4. Penderfynu a fyddai mudiad hir fraich 'nid er elw' yn fuddiol i ddatblygiad y cyfleuster ac i sicrhau cyfalaf.
5. Sicrhau'r caniatâd a'r trwyddedau angenrheidiol (gan gynnwys caniatâd cynllunio ar gyfer 'newid defnydd' ar gyfer gweithredu'n fasnachol).
6. Paratoi a chyflwyno'r ceisiadau am gyllid. Mae'n debyg na fydd pob un ohonynt yn llwydiannus ac efallai eich bod yn awyddus i wneud cais i wahanol ffynonellau cyllid, ymgeisio am fuddsoddiad preifat, neu roi amser o fewn eich amserlen i ail-gyflwyno ceisiadau a bo angen.
7. Comisiynu pensaer i greu cynlluniau pensaernïol manwl o'r datblygiad ynghyd â chynllun diwygiedig o'r gwaith.
8. Comisiynu arbenigwr dehongli i gydweithio a chi er mwyn datblygu'r gofod dehongli newydd ynghyd ag arddangosfeydd rhyngweithiol.
9. Canfod a chostio'r elfennau ychwanegol (e.e.cysylltiad rhyngrwyd, offer amlgyfrwng ac ati)
10. Comisiynu contractwyr i ymgymryd ag ail-ddatblygu strwythur yr adeilad.
11. Comisiynu arbenigwr ar ddehongli i osod yr arddangosfeydd rhyngweithiol newydd yn eu lle.
12. Addurno a dodrefnu'r adeilad yn ôl y galw (e.e. gofod masnach neu swyddfa)

**Nodyn:** Mae'n debygol y bydd y broses yn cael ei rannu i ddwy wedd wahanol, Datblygu *(1-8) & Darparu (9-11), gyda chyllido gwahanol ar gyfer pob un. Bydd gan rai gyllidwyr gofynion ychwanegol fel rhan o'u proses ymgeisio.*

## MODEL DARPARU

Credwn y dylai'r datblygiad hwn gael ei arwain, yn y cyfnod cychwynnol gan Gyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn sicrhau fod y cyfleuster newydd yn cael ei reoli yn unol ag ethos a natur presennol y safle ehangach.

Os y daw i'r amlwg na all Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau cyllido digonol i ddarparu'r brosiect, yna fe all mudiad neu ymddiriedolaeth 'nid er elw' cael ei greu fel cyfrwng i ddatblygu'r cyfleuster.

Fodd bynnag, os digwydd hyn mae'n dal yn debygol y bydd rhaid rheoli'r cyfleuster gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn yr hir dymor (o bosb trwy gytundeb rheolaeth). Y rheswm dros hyn yw bod y cyfleuster yn annhebygol o gynhyrchu digon o incwm i alluogi'r mudiad neu'r partner newydd i gyllido aelod staff yn benodol i weinyddu'r bwcio ar gyfer y gofod amlbwrpas ac addysgol, llogi'r gofod masnachol, gweithgareddau a chynnal a chadw. Gan fod gan Gyfoeth Naturiol Cymru systemau tebyg mewn lle mewn safleoedd eraill fel Coed y Brenin a Garwnant, credwn y dylai hwn fod o fewn eu gallu cyhyd a'u bod yn cael eu digolledi am y gwaith ychwanegol.

## CASGLIAD

Credwn fod yna potensial sylweddol ar gyfer y datblygiad newydd yma ym Mwlch Nant yr Arian, ac y gellir darparu buddion sylweddol yn lleol ac yn rhanbarthol wrth ddatblygu adnodd sydd yn cael ei danddefnyddio.

Rydym wedi bod yn geidwadol yn ein rhagamcaniad ariannol ac rydym yn hyderus fod y cynigion yn ddichonadwy cyhyd â bod y tybiaethau'n gywir.

# ATODIAD A:
# YMGYNHORIAD CYMUNED A RHANDDEILIAID

## PWRPAS

Er mwyn cyfarwyddo'r Astudiaeth Ddichonoldeb o botensial datblygiad cyn adeilad Comisiwn Coedwigaeth Cymru ym Mwlch Nant yr Arian yn y dyfodol, lluniwyd arolwg ar lein er mwyn casglu barn, blaenoriaethau a syniadau cymunedau lleol ynghyd â rhanddeiliaid. Dilynwyd hwn gan ddau weithdy ar gyfer rhanddeiliaid, i drafod casgliadau'r arolwg yngyd â'n casgliadau ein hunain.

## METHODOLEG

Gosodwyd arolwg dwyieithog ar y llwyfan ar lein 'Surveymonkey, 'a rhanwyd y linc i'r cysylltiadau a rhwydweithiau partneriaid a'r rhanddeiliaid a ganfyddwyd, gan rannu'n eang ar y cyfyngiadau cymdeithasol. Roedd ar agor am bythefnos yn gychwynol yn Ebrill 2021, gan ei ymestyn am bythefnos ychwanegol i mewn i fis Mai yn dilyn diddordeb gan y Cambrian News, er mwyn roi cyfle i ddarllenwyr ymateb.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau i'r cyhoedd yn gyffredinol, yn ogystal ag adrannau penodol ar gyfer busnesau a darparwyr gwasanaethau sydd yn elwa o'r safle neu yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

Cafwyd trafodaethau i ddilyn ymlaen gyda 11 rhanddeiliad mewn dau weithdy ar wahan. Fe'i cynhaliwyd yn rhithiol, un yn y bore ac un gyda'r hwyr er mwyn galluogi pobl i fynychu yn ôl eu hymrwymiadau gwaith.

Roedd cyfyngiadau Covid-19 yn golygu nad oeddem yn gallu holi ymwelwyr wyneb yn wyneb ym Mwlch Nant yr Arian; dyma paham y cynhaliwyd yr arolwg yn unswydd ar lein. Ymwelodd Deio Jones â'r safle gyda rheolwyr y safle er mwyn cyfarwyddo â'r lleoliad. Ymwelodd hefyd yn ystod penwythnos Gŵyl y Banc er mwyn profi'r safle fel ymwelydd.

Penderfynwyd fod prinder mewnbwn gan ymwelwyr, felly cynhaliwyd arolwg byr ychwanegol yn ystod Gŵyl y Banc ym mis Awst.

## NODIADAU

Nid oedd pob ymatebydd wedi ateb pob cwestiwn, gyda rhai yn gwneud sylwadau ar y safle'n gyffredinol yn hytrach na'r adeilad dan sylw. Cynhwyswyd yr ymatebion hyn am eu bod yn rhoi cyd-destun bwysig ac yn darparu data ar gyfer y tîm prosiect parthed datblygiadau eraill yn y dyfodol. Roedd rhai ymatebion yn fwy perthnasol i bennawd arall, lle yr oedd yn amlwg eu bod wedi llenwi'r adran anghywir er mwyn sicrhau fod eu barn yn cael ei gynrychioli'n gywir.

## CASGLIAD GWEITHREDOL

Nid yw'n syndod o ystyried natur y safle, mai gweithgareddau hamdden ynghyd â'r amgylchedd naturiol amrywiol a thawel yw'r prif ffactorau sy'n denu ymwelwyr i Fwlch Nant yr Arian. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y wedd gymdeithasol fel lleoliad lle y mae ffrindiau a theuluoedd yn cyfarfod â'i gilydd.

Er mai canran gymharol fechan a ddynododd Iechyd/Adferiad/Gwellhad fel rheswm penodol dros ymweld, mae buddion lles ac iechyd y safle (yn feddyliol ac yn gorfforol) yn amlwg yn arwyddocaol ac mae Bwlch Nant yr Arian yn adnodd lleol bwysig yn hyn o beth, ac yn faes â photensial i ehangu wrth fwrw ymlaen.

O ystyried enw da y safle fel canolfan fwydo Barcutiaid Coch, y cyfleon i ymwneud â natur, ynghyd â'r lliaws o fyrddau dehongli ar hyd y llwybr ger y llyn, mae'n drawiadol mai ond 12% sydd yn gweld gwerth addysgiadol i'w hymweliad. Gallai hyn fod yn agwedd i'w ddatblygu yn gysylltiedig a threftadaeth leol. At hyn, mae digwyddiadau celf, ffotograffiaeth a digwyddiadau penodol yn feysydd tyfiant posibl os mai'r nod yw denu ymwelwyr newydd ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.

Er bod yr holl opsiynau a gynigiwyd yn rhai cadarnhaol, roedd yna gefnogaeth gryfach ar gyfer datblygiad a oedd yn darparu adnodd ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr gan ddiogelu a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol, yn hytrach na denu mwy o ymwelwyr, hybu tyfiant economaidd neu hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol yr ardal.

Adlewyrchwyd hyn yn y data yn ymwneud â'r dewis a ffafriwyd mwyaf ar gyfer pwrpas datblygiad newydd, lle roedd yn eglur bod 'denu mwy o drigolion lleol i ymweld' yn flaenoriaeth mwy pwysig na 'denu ymwelwyr ychwanegol i'r ardal'. Tra hefyd yn awgrymu bod 'gwella'r ddarpariaeth sydd yno'n barod' a 'chynnig gweithgareddau/gwasanaethau mwy amrywiol', y ddau'n sgorio'n uchel, dylid anelu at les ac elw trigolion lleol a'r defnyddwyr cyfredol.

Gallwn hefyd gasglu fod y sgôr gymharol isel i hyrwyddo busnesau a gweithgareddau Mynyddoedd Cambria ynghyd â diffyg awydd i ddenu twristiaid newydd (ac, i raddau llai – ymestyn y tymor), yn awgrymu fod yr ymatebwyr yn gogwyddo mwy tuag at ddatblygiad sy'n hybu buddion lles ac iechyd ar gyfer trigolion lleol yn hytrach na chwyddo'r economi leol.  Atgyfnerthir hwn yn ddiweddarach gan wrthwynebiad cryf tuag at ddatblygiad pur fasnachol yn unig a fyddai'n effeithio'n negyddol ar y safle cyfredol.

Nid oedd yn syndod clywed fod y llwybrau cerdded, yr amgylchedd naturiol ynghyd â'r tawelwch a'r llonyddwch yn cael eu hystyried yn gryfderau i adeiladu arnynt; hefyd, hygyrchedd i bawb (y gellid gwella arni) ynghyd ag amgylchedd diogel i blant. Roedd y diffygion y gellid fynd i'r afael â nhw drwy'r datblygiad hwn yn cynnwys prinder eisteddle dan do, gofod gymunedol/addysgol, dehongliad o dreftadaeth a natur yr ardal, ynghyd â phrinder gweithgareddau dan do/tywydd gwlyb. Cyfeiriwyd droeon at absenoldeb cyfleusterau cawod, a siop llogi beiciau.


Roedd traean o'r ymatebwyr yn cynnig gofod y gellid ei rannu rhwng digwyddiadau cymunedol/gofod addysgol a allai fod yn leoliad gweithgareddau dan do tra hefyd yn cael ei rentu i grwpiau lleol a darparwyr gweithgareddau. Roedd Cyfleuster Addysgol Penodol, Dehongliad o Dreftadaeth a Natur lleol, Ystorfa Gyfarpar/ llogi beiciau, Canolfan Gelf a Chrefft a chynnyrch lleol hefyd yn awgrymiadau poblogaidd.

Y datblygiadau a gafodd eu gwrthwynebu'n fwyaf chwyrn oedd unrhyw beth a niweidia'r amgylchedd naturiol (neu'r olygfa), unrhyw beth oedd yn or-fasnachol, neu ddatblygiad a fyddai'n amharu ar y tawelwch a'r llonyddwch. At hyn, yn uchel ar y rhestr, oedd unrhyw beth a fyddai'n annog mwy o weithgareddau gyrru traws gwlad gan feiciau modur a cherbydau mecanyddol, ynghyd ag unrhyw ddatblygiad fyddai yn denu ymwelwyr yn eu lluoedd i'r safle.


Byddai buddion posibl i fusnesau lleol yn deillio'n bennaf o hyrwyddo'r ardal a denu ymwelwyr, gyda budd pellach o werthu cynnyrch a defnydd o'r cyfleusterau ar y safle. Roedd Darparwyr Cyfleusterau Lleol hefyd yn gwerthfawrogi iechyd, lles a buddiannau addysgiadol y safle, ynghyd â hygyrchedd. Teimlwyd mai gofod dan do i'w logi fyddai'r datblygiad y teimlai'r rhan fwyaf y byddai o fudd iddynt hwy.

## YR YMATEBWYR: PWY SY'N YMWELD, A PHA BRYD

Roedd cyfanswm o 224 unigolyn wedi ymateb i'r arolwg ar lein, gyda'r mwyafrif yn drigolion lleol. Roedd 44.6% wedi datgan eu bod yn byw o fewn 5 milltir i Fwlch Nant yr Arian, gyda 52.3% pellach o fewn 25 milltir. Roedd 3.2% yn 'ymwelwyr' o bellach i ffwrdd.




*Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio orau?*





*Pa mor aml yr ydych chi a/neu eich teulu yn ymweld â Bwlch Nant yr Arian?*

Mae dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn ymweld â'r safle o leiaf unwaith y mis (cyn Covid), gan gynnwys 20.7% sy'n ymweld yn wythnosol a 3.2% sy'n ymweld yn ddyddiol.

Roedd canran fawr, 96.4% o'r ymatebwyr hefyd wedi nodi eu bod wedi ymweld â'r safle o fewn y 3 mlynedd ddiwethaf (defnyddiwyd y cyfnod gymharol hir hwn er mwyn ystyried y cyfyngiadau Covid mewn grym oddi ar yn gynnar yn 2020).


Dengys y data hefyd bod yr ymatebwyr yn tueddu ymweld gydol y flwyddyn, er bod yna leihad sylweddol mewn ymwelwyr yn ystod misoedd y gaeaf. Daw'r mwyafrif (84.1%) yn eu ceir, a hyn i'w ddisgwyl oherwydd y lleoliad. Fodd bynnag, mae dros 10% yn seiclo, gyda nifer llai yn gerddwyr neu'n marchogaeth ceffylau. Nododd dau ymwelydd eu bod wedi cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus.




*Ydych chi'n tueddu i ymweld ar adegau penodol o'r flwyddyn?*

Mae hefyd yn werth nodi, er i'r mwyafrif (61.3%) dynodi fod y pandemig Covid-19 yn annhebygol o newid pa mor aml y byddant yn debygol o ymweld â'r safle yn y dyfodol, mae 22.1% yn dweud eu bod yn fwy tebygol o ymweld yn fwy aml, o'i gymharu ag ond 8.1% a nododd i'r gwrthwyneb. Mae hwn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth anecdotaidd ar draws y DU fod pobl wedi bod yn 'ail-ddarganfod' natur yn ystod y cyfnodau clo, ac os ddeil y duedd hon fe all bwyntio tuag at gynnydd bach yn nifer yr ymweliadau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

*Ydy'r pandemig Covid-19 yn debygol o newid pa mor aml y byddwch yn ymweld yn y dyfodol?*





Gan fod yr astudiaeth ddichonoldeb hon yn edrych ar ddatblygiadau a all gynnig buddion yn lleol ac yn rhanbarthol yng Ngheredigion ac ardal Mynyddoedd Cambria, gallwn fod yn hyderus fod y safbwyntiau a fynegir yn yr arolwg hwn yn gynrychiolaidd o'r safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid lleol a defnyddwyr presennol y safle.

Fodd bynnag, ar yr ochr negyddol, prin yw'r data ar y rhai sydd ddim yn ymweld â'r safle ar hyn o bryd, ynghyd â beth fyddai'n angenrheidiol i ddenu defnyddwyr newydd neu'r rhai sydd wedi eu heithro ar hyn o bryd.

## PAHAM Y MAE POBL YN YMWELD?

Mae Bwlch Nant yr Arian yn denu ymwelwyr sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, nid yw'n syndod bod y rhain yn ymwneud yn ganolog â hamdden a'r amgylchedd naturiol. Y weithgaredd mwyaf poblogaidd a nodir gan ein hymatebwyr yw cerdded, tra bo 'mwynhau natur', beicio mynydd, gwylio'r barcud coch yn bwyta, ynghyd â'r tawelwch a'r llonyddwch yn amlwg iawn. Mae'r safle'n boblogaidd gyda cherddwyr cŵn a rhedwyr, tra bo nifer fechan yn marchogaeth ceffylau.

Mae nifer arwyddocaol yn nodi fod ymweld â'r siop/caffi ynghyd â chymdeithasu hefyd yn rhesymau allweddol dros ymweld. Mae ychydig dros 10% o'r ymatebwyr yn nodi iechyd/adferiad/gwellhad, mynychu digwyddiadau, a chelf a ffotograffiaeth fel rhesymau dros ymweld.





O'r ymatebwyr 'eraill', cyfeiriodd 6 at ddod â phlant ac wyrion i chwarae yn y coed neu'r parc, tra bo casglu llus a dod ag ymwelwyr hefyd yn cael eu crybwyll. Soniodd eraill am ddysgu, nofio, a dilyn 'trywydd gwyrdd'.

## Y BUDDIANNAU I BOBL

Llaw yn llaw a'r gweithgareddau sy'n denu pobl, roeddem hefyd wedi ystyried pa fuddiannau y mae pobl yn eu derbyn o ymweld â Bwlch Nant yr Arian. Daeth 'mwynhad a chael hwyl' ar y brig ynghyd â 'gwelliant iechyd corfforol'. Dilynwyd rhain gan 'ymlacio' a 'gwella iechyd meddwl'. Roedd bron hanner yn cydnabod 'ail-gysylltu â natur' fel un o'r buddiannau, a thraean yn cydnabod gwerth cymdeithasol y safle.

Tra bo ychydig dros chwarter yr ymatebwyr yn nodi buddiannau'r cyfleuster lleol, dim ond 12% a oedd yn cydnabod gwerth 'addysgol'. O dan y categori 'eraill' cyfeirwyd at fuddion i fusnes.




> *"Mae'n daith gerdded hyfryd i bobl sydd â thrafferthion symudedd pan bo'r llwybr o gylch y llyn mewn cyflwr da - rwy'n gallu tywys fy mam (yn ei 80'au gyda chlefyd Parkinsons) ac mae hi hyd yn oed yn gallu cerdded yno yn y gaeaf, gyda'r ymdeimlad eich bod allan yng ngefn gwlad - a chael paned o de hefyd!'*

## BLAENORIAETHAU – PA FATH O DDATBLYGIAD Y MAE POBL EISIAU GWELD?

Roedd yr adran hon wedi ymchwilio i ba fath o ddatblygiad y teimla pobl a fyddai o fudd mwyaf. Mae'r pedair opsiwn a archwiliwyd wedi eu seilio ar y brîff gwreiddiol, sy'n dynodi y dylai unrhyw ddatblygiad hyrwyddo o leiaf un o'r canlynol:

1. Adnodd at ddefnydd pobl leol ac ymwelwyr ar gyfer iechyd, lles, addysg a mwynhad.
2. Ymwybyddiaeth gynyddol o'r tirwedd, natur a'r dreftadaeth ddiwylliannol yng Ngheredigion a Mynyddoedd Cambria.
3. Cyfleon ar gyfer yr economi leol.


O ystyried natur y safle, fe wnaethom gynnwys pedwerydd opsiwn:

4. Dylai datblygiad newydd ddiogelu a/neu hybu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd leol.


Rydym yn cydnabod y gall hwn fod yn bwnc anodd i'w archwilio trwy holiadur, gyda'r pedwar opsiwn unigol yn ddatblygiadau positif sydd yn debygol o dderbyn cefnogaeth gan y cyhoedd. Felly, fe ofynwyd y cwestiwn mewn dau ffordd wahanol.

Wrth ofyn i'r ymatebwyr i ddewis eu hymateb i'r pedwar opsiwn allan o 'cytuno'n gryf' neu 'anghytuno'n gryf' (gweler cyferbyn), nid oedd yn syndod fod mwyafrif llethol yr ymatebion yn gadarnhaol tuag at y bedair opsiwn fel ei gilydd.


Wedi dweud hyn, mae yna cefnogaeth gryfach amlwg i opsiynau 1 a 4. Gan gyfeirio at y rhai a oedd yn 'cytuno'n gryf' ynghyd â'r ymatebion positif ar y cyfan sydd dros 95% o'u cymharu ag oddeutu 85% ar gyfer y ddau arall.





*A new development should provide a resource for local people and visitors such as for health, wellbeing, education and/or enjoyment.*




*A new development should preserve and / or promote awareness of the cultural heritage of the Cambrian Mountains and Ceredigion*




*A new development should promote awareness of the local area to attract visitors: creating opportunities for the local economy and/or local businesses.*




*Dylai datblygiad newydd ddiogelu a/neu hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r amgylchedd leol.*


Gofynwyd i'r ymatebwyr hefyd i 'raddio'r' opsiynau yn ôl y drefn yr oeddent yn barnu eu pwysigrwydd. Mae hwn yn gorfodi pobl i flaenoriaethu hyd yn oed os ydynt yn gefnogol o bob opsiwn sydd ar y bwrdd.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfartaledd sgôr pob opsiwn (*rhestrir yr opsiwn a raddiwyd uchaf yn '4' a'r isaf a sgoriwyd wedi ei raddio'n '1')* ac mae hyn yn dilysu canlyniadau'r gyfres flaenorol o gwestiynau, a oedd yn dynodi yr union ddau opsiwn fel blaenoriaethau:

- Adnodd ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr megis ar gyfer iechyd, lles, addysg a mwynhad.
- Dylai datblygiad newydd ddiogelu a/neu hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r amgylchedd leol.

Mae golwg mwy manwl ar y data yn dangos fod bron 50% wedi graddio 'Adnodd ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr megis ar gyfer iechyd, lles, addysg a mwynhad' fel eu priod blaenoriaeth. Mwy na dwywaith unrhyw opsiwn arall.

Q13 Please rank the following statements from 'most important' (top) to 'least important' (bottom).





| | 1 | 2 | 3 | 4 | TOTAL | SCORE |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A new development should provide a resource for local people and visitors such as for health, wellbeing, education and/or enjoyment. | 49.73% 91 | 22.95% 42 | 15.30% 28 | 12.02% 22 | 183 | 3.10 |
| A new development should promote awareness of the local area to attract visitors: creating opportunities to the local economy and/or local businesses. | 19.23% 35 | 28.02% 51 | 25.27% 46 | 27.47% 50 | 182 | 2.39 |
| A new development should preserve and/or promote awareness of the local environment. | 23.08% 42 | 32.97% 60 | 29.67% 54 | 14.29% 26 | 182 | 2.65 |
| A new development should preserve and / or promote awareness of the cultural heritage of the Cambrian Mountains and Ceredigion | 9.68% 18 | 16.13% 30 | 29.57% 55 | 44.62% 83 | 186 | 1.91 |

- Yn y gweithdai ar gyfer y rhanddeiliaid roedd mwyafrif amlwg yn cytuno y dylid blaenoriaethu'r ddwy elfen hyn.

## PWRPAS DATBLYGIAD NEWYDD

I geisio gwell ddealtwriaeth o bwrpas y cyfleuster newydd, a'r hyn y dylai fod, gofynwyd I'r ymatebwyr i sgorio chwe phwrpas gwahanol posibl a ddynodwyd gan fwrdd y prosiect, rhwng beth a ddylai cael ei ystyried fel y Flaenoriaeth uchaf (5) a'r Flaenoriaeth isaf (1). Dangosir cyfartaledd y sgôr ar gyfer pob opsiwn yn y graff isod:Fel y gwelwch doedd dim




pwrpas dewisol oedd yn sefyll pen ac ysgwydd uwchben y lleill. Archwiliwyd y rhain ymhellach yn y gweithdai ar gyfer y rhanddeiliaid. Wedi trafodaeth frwd, daeth rhai themau allweddol i'r amlwg:

- Dylai'r safle ddarparu a gwella'r hyn mae'n cynnig i drigolion lleol a chymdeithasau. Fodd bynnag, dylid cydnabod pwysigrwydd cydbwysedd economi ymwelwyr i'r ardal, a dylid adlewyrchu hyn mewn atyniad cynaliadwy a phriodol sy'n parchu natur y safle yn hytrach na 'thwristiaeth dorfol'.
- Dylai unrhyw atyniad i ymwelwyr anelu at ddenu ymwelwyr 'ansawdd uchel' a'u diddordebau yn yr elefennau creiddiol amgylcheddol, hanesyddol, diwylliannol ynghyd ag elfennau'r gweithgareddau agored.
- Dylai'r datblygiad anelu at hyrwyddo buddiannau iechyd a lles ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Er bod datblygiad economaidd hefyd yn ddymunol, ni ddylai fod ar draul yr elfennau eraill.
- Byddai galluogi cynnal rhaglen o ddigwyddiadau cymdeithasol ar gyfer teuluoedd yn rhywbeth gadarnhaol.

## ADEILADU AR EIN CRYFDERAU

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ddynodi y brif cryfderau y gallem adeiladu arnynt ym Mwlch Nant yr Arian. Nid oedd yn syndod fod y mwyafrif wedi cyfeirio at y Llwybrau Gweithgareddau (Cerdded, Rhedeg a Beicio), yr amgylchedd naturiol – gyda'r Barcud Goch yn thema gyffredin amlwg, ynghyd â'r tirlun a'r golygfeydd godidog.

Daeth hygyrchedd ar gyfer pob oed, gallu a symudedd i'r amlwg, fel y gwnaeth y lleoliad, gyda thawelwch a llonyddwch yr ardal, gyda'r awydd i ymatal rhag amharu ar hwn drwy orddatblygu neu orlenwi gydag ymwelwyr.  Gwelwyd y caffi/siop fel caffaeliad gan rai, er bod eraill yn awyddus i weld gwelliannau i'r caffi/siop tra roedd eraill yn ymddangos yn ddiarwybod o'r siop sydd yno ar hyn o bryd ac argaeledd cynnyrch lleol!!



Roedd yna hefyd cryn dipyn ynghylch y cyfleusterau da a diogel ar gyfer plant, ynghyd â photensial y safle fel adnodd addysgol.

## YMATEB I'R GWENDIDAU

Roedd amrywiaeth eang o bethau gwahanol wedi eu nodi fel pethau ag angen eu gwella ar y safle, er mai'r ymateb mwya cyffredin oedd '*Dim byd*' neu '*Ddim yn Gymwys!*' Mae hefyd yn werth nodi, er bod yna amrywiaeth eang o sylwadau, roedd ond ychydig a oedd yn cael eu hail-adrodd yn gyson.

Soniwyd yn aml am y caffi, gyda'r rhan fwyaf yn cyfeirio at arafwch y gwasanaeth a phrinder byrddau (dan do a thu allan) ar adegau prysur, gyda rhai yn cyfeirio at ansawdd/amrywiaeth y bwyd. [Nodyn: *Gwnaethpwyd yr arolwg ar adeg pan oedd y caffi'n gweithredu gyda gwasanaeth/capasiti cyfyngedig yn sgil cyfyngiadau Covid-19 a allai, o bosib, fod wedi effeithio ar y canlyniadau*].  Cyfeiriwyd at barcio, gyda sylwadau'n amrywio o brinder lle, gorfod talu ynghyd â thrafferthion gyda mesuryddion y peiriannau talu.

Nodwyd llwybrau cerdded a oedd yn cael eu rhannu â beiciau fel rhai a all fod yn beryglus, tra dymunai eraill gweld llwybrau hirach ac amrywiol, llwybrau wedi eu neilltuo i farchogion ceffylau, ynghyd â chysylltiadau i'r cymunedau cyfagos a'r rhwydwaith ehangach o ffyrdd â hawl tramwy.  Cyfeiriwyd at wella hygyrchedd ar gyfer y cyfleusterau, amrywiaeth ehangach o lwybrau gan rai, a soniwyd am brinder cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus.  Soniodd rhai am yr angen i adfer y coetir wedi i'r coed cael eu dymchwel. Nodwyd problemau baw ci a cherbydau oddi ar y ffordd.

O ystyried y problemau y gellid eu cywiro gan ddatblygiad newydd, mae lleoliadau bwyta ynghyd ag eisteddleoedd dan do a thu allan yn un posibilrwydd. Soniwyd llawer gwaith am ddiffyg gofod ar gyfer digwyddiadau cymunedol, yn ogystal â gofod addysgol, dehongliad o natur a threftadaeth yr ardal, a phrinder gweithgareddau dan do/tywydd gwlyb.

Mae yna diffyg cyfleusterau cawod ac ymolchi y byddai beicwyr yn eu gwerthfawrogi, gan y gallant aros yr hirach ar y safle neu yn yr ardal ar ol ymolchi. Cyfeiriodd rhai at ddiffyg cyfleusterau storio beic (a chadair olwyn fecanyddol), gyda rhai yn cyfeirio at ddarpariaeth Coed y Brenin fel esiampl.

## DATBLYGIADAU ARFAETHEDIG

Rhoesom gyfle i'r ymatebwyr i gynnig eu hawgrymiadau ar y math o ddatblygiadau yr hoffent weld. Yr awgrym mwyaf cyffredin, a gynigiwyd gan bron i draean o bobl, oedd ar gyfer **gofod a rannwyd ar gyfer digwyddiadau cymunedol neu ofod addysgol** a allai gynnal gweithgareddau dan do a chael ei logi gan grwpiau lleol a darparwyr gweithgareddau.

**Cyfleuster Addysgol** penodol ynghyd â **Dehongli Natur a Threftadaeth Leol** oedd y cynigion poblogaidd nesaf. Yr un mor boblogaidd oedd **Siop Cyfarpar Awyr agored** a **Chyfleuster Llogi Beic** (gan gynnwys E-Feiciau a chadeiriau olwyn moduraidd), a **Chanolfan Gelf/Crefftau a Chynnyrch lleol** gydag awgrymiadau amrywiol ynghylch gwerthu, arddangos a gweithdai creadigol.

Cynigiwyd datblygu **Llety** nifer o weithiau mewn amrywiol ffyrdd, o byncws/hostel i dŷ encil gwledig, gydag un yn awgrymu cyfleuster sba! Awgrymwyd **Caffi/Bar/Bwyty** mwy o faint gan amryw, ynghyd â datblygiad ar ffurf **canolfan ymwelwyr** i hyrwyddo'r **ardal leol, busnesau a gweithgareddau**.

Roedd yr awgrymiadau terfynol, yn cael eu crybwyll nifer o weithiau, yn cynnwys Gofod Chwarae dan do, atyniadau/gweithgareddau amhenodol - ar y cyfan, dan do ac yn wahanol i'r hyn sydd ar gynnig ar hyn o bryd, **cyfleusterau cawodi ac ymolchi** i feicwyr (a rhedwyr), cyfleuster **Iechyd a Lles**, **Unedau Busnes** gan gynnwys gofod swyddfa, gweithdai gorsafoedd gweithio pell.

Roedd cynigion eraill a grybwyllwyd unwaith neu ddwy yn cynnwys:

- Llethr sgïo sych.
- Llinell wifren zip
- Marchnad ffermwyr/stondyn sydyn (syniad am ofod cymunedol?)
- Ardal ymarfer corff dan do
- Cyfleuster golchi beic
- Llain chwaraeon/pêl droed/rygbi dan do
- Ardal eisteddle dan do

## DATBLYGIADAU A WRTHWYNEBWYD

Gofynwyd hefyd i'r ymatebwyr pa fath o ddatblygiadau y byddent yn eu gwrthwynebu'n gryf, a phaham.

Y datblygiadau a wrthwynebwyd yn fwya chwyrn oedd unrhyw rhai a fyddai'n **niweidio'r amgylchedd naturiol** (neu'r olygfa) unrhyw beth a fyddai'n **or-fasnachol**, neu ddatblygiad a fyddai'n **tarfu ar ddistawrwydd a thawelwch** (trwy oleuni/sŵn ac ati).

Yn agos at frig y rhestr oedd unrhyw beth a fyddai'n annog mwy o **weithgareddau moduro oddi ar y ffordd** a **cherbydau traws-gwlad**. Hefyd, unrhyw **atyniad a oedd yn denu ymwelwyr torfol i'r safle**, gyda'r wasgfa ar barcio, cynnydd mewn trafnidiaeth, a diogelu cymeriad y safle yn themau allweddol yn y cyswllt hwn.


Roedd rhywfaint o wrthwynebiad i unrhyw beth a ystyriwyd yn "or-ddatblygiad neu'n un annaturiol" yn ogystal â **datblygiadau preifat** na fyddai'n llesol i **logi tai gwyliau**, y gymuned na'r cyhoedd.


Mae'n werth gofnodi, nodwyd gwrthwynebiad gan un neu ddau ymatebydd i'r canlynol:

- Gofod swyddfeydd masnachol
- Mwy o lwybrau/cyfleusterau beicio
- Siop ychwanegol
- Unrhyw beth anghynaliadwy
- Datblygiad un defnydd
- Gofod arddangos/addysgol statig (h.y. statig – ddim ail ymweld)
- Siopau cadwyn/bwyd cyflym
- Datblygiad nad oedd yn Gymreig ganolog
- Unrhyw beth a oedd yn cynyddu maint y maes parcio (gan ddenu nifer uwch o ymwelwyr)
- Plannu mwy o goed conwydd.

## BUDDION POSIBL I FUSNESAU


O’r ymatebwyr a nododd eu bod yn berchen neu’n gweithio yn eu busnesau eu hunain,roedd 13 yn elwa ar hyn o bryd o Fwlch Nant yr Arian, gyda 10 yn dweud y gallent, o bosibl, yn y dyfodol. Roedd rhychwant eithaf eang o sectorau, fel y dangosir yma, gyda’r adran ‘arall’ yn cynnwys crefftau, ffotograffiaeth a busnesau therapiwtig, yn ogystal â mudiadau’r llywodraeth ac addysg, ynghyd ag elusen amgylcheddol.




Mewn ateb i’r cwestiwn sut (neu sut y gallent) elwa o Fwlch Nant yr Arian, nododd hanner y potensial i werthu gwasanaethau neu gynhyrchion. Nododd dros chwarter bod ymwelwyr yn aros yn eu llety, gyda 21% ychwanegol yn sôn bod ymwelwyr yn ymweld a’u sefydliadau. O’r categori ‘arall’, nododd hanner eu bod (neu y gallent) defnyddio’r cyfleusterau ym Mwlch Nant yr Arian.

O’r buddion y gallent dderbyn o ddatblygiad newydd, nododd y mwyafrif llethol fuddiannau ychwanegol hyrwyddo’r ardal i ymwelwyr; nododd 40% buddion gwerthu eu cynnyrch, tra bo dros 30% yn gweld manteision arwyddion yn hysbysebu eu busnesau. Roedd defnyddio’r cyfleusterau hefyd yn cael ei weld fel budd o botensial o dan y categori ‘arall’.




## BUDDION POSIBL I DDARPARWYR GWASANAETHAU

Roedd dros 20 o fudiadau yn dynodi eu bod yn defnyddio Bwlch Nant yr Arian i ddarparu gwasanaethau i’r gymuned ar hyn o bryd. Y rhan fwyaf yn gysylltiedig â **Iechyd a Lles** (gan gynnwys therapi, gofal cymdeithasol a gwasanaethau ieuenctid), neu **Addysg.** Roedd eraill yn cynnwys darparwr gweithgaredd a mudiadau cadwriaethol.

Roedd y mwyafrif yn gweld **gwerth addysgol** y safle, yr **amgylchedd naturiol**, a’r amrywiaeth o weithgareddau fel y rheswm eu bod yn gwneud defnydd (a bod eu defnyddwyr yn elwa) o’r safle. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys defnydd o’r caffi ynghyd â **mynediad i’r cyfleusterau a’r toiledau i’r anabl**.

O ofyn pa ddatblygiadau a fyddai’n fuddiol iddynt fel darparwr gwasanaeth, y sylw mwya poblogaidd oedd **gofod ystafell ddosbarth** a/neu **ofod dan do y gallent ei logi**.  Roedd sylwadau unigol ynghylch gwelliannau i’r toiledau (ar agor gydol y flwyddyn) llogi beic, gwelliannau i’r caffi, a’r posibilrwydd o agor y llyn i nofwyr.



## Y RHESTR HIR

Yng ngweithdai'r rhanddeiliaid trafodwyd y datblygiadau arfaethedig yn yr arolwg ar lein. Yna rhoddwyd cyfle i'r cyfranogwyr i bleidleisio'n ddi-enw ar bob cynnig, gyda'r ddealltwriaeth y byddai pob cynnig a dderbyniai pleidlais unigol yn cael ei gynnwys yn y rhestr hir i'w archwilio ymhellach.

Yn ychwanegol at yr uchod, rhoddwyd y cynigion dilynol yng ngweithdai'r rhanddeiliaid ac fe fyddant yn cael eu cynnwys ar y rhestr hir:

- Beiciau statig gyda dangosyddion pŵer (e.e. seiclo i yrru teclynau'r ty)
- Arddangosfeydd rhithrealiti/clustffonau er mwyn galluogi rhai sydd â symudedd cyfyngedig (neu'r rhai sydd ddim yn feicwyr) i brofi:
  - Y llwybrau beicio mynydd
  - Yr amgylchedd naturiol (hefyd yn declyn addysgol)
  - Ffilm drôn 3D o'r safle
- Arsyllfa Wybren Dywyll


Dangosir a chrynhoir y canlyniadau cyferbyn:

## NODYN YNGHYLCH Y DEWISIADAU A WRTHODWYD:

- Ystyriwyd y llethr sgïo sych, y wifren Zip a'r arena chwaraeon dan do yn anaddas ac yn anghymwys i natur y safle.
- Roedd llety yn cael ei ystyried fel modd sicr o gynhyrchu elw, a'r safle'n berffaith ar gyfer gwneud hynny. Fodd bynnag, mi fyddai'n disodli busnes darparwyr lleol gan olygu na fyddai'r datblygiad yn fuddiol i'r mwyafrif llethol o ymwelwyr.
- Barnwyd fod opsiwn y caffi/bwyty yn un a ddisodlai busnes y caffi presennol, ac y dylai unrhyw ddatblygiad fod yn un a oedd yn ehangu'r cyfleusterau presennol.
- Ystyriwyd bar yn anaddas, er y lleoliad ysblennydd mi fyddai'n newid yr amgylchedd tawel, llonydd a werthfawrogir gan ymwelwyr.

| Safle | Cynnig | Safle | Cynnig |
|---|---|---|---|
| 1 | Gofod wedi ei rannu ar gyfer Cymuned/Digwyddiad/ Addysg | =9 | Ystorfa gyfarpar awyr agored |
| 2 | Cyfleuster Iechyd a Lles | =9 | Unedau busnes |
| 3 | Dehongli Natur a Threftadaeth | =9 | Ardal ymarfer dan do |
| 4 | Canolfan Gelf a Chrefft | =12 | Canolfan ymwelwyr |
| 5 | Llogi beic/trwsio (a glanhau) | =12 | Eisteddle ychwanegol dan do |
| 6 | Cyfleusterau cawodi/ ymolchi | =12 | Atyniad/cyfleuster arall |
| =7 | Ardal chwarae dan do i blant | Additional | Beiciau statig |
| =7 | Cyfleuster addysgol pwrpasol | Additional | Arddangosfa rhithrealaeth/ ffilm drôn |

.



# ATODIAD B:
# GWERTHUSIAD OPSIYNAU

## CYD-DESTUN A CHYFLWYNIAD FER

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu y broses o werthuso opsiynau a wneuthum fel rhan o'r Astudiaeth Ddichonoldeb ehangach i ddatblygu hen Adeilad y Comisiwn Goedwigaeth ym Mwlch Nant yr Arian.

## Y BROSES HYD YMA:

i) Roedd yr ymgynghoriad cychwynnol gyda defnyddwyr a'r gymuned wedi canfod amrywiaeth o faterion y gallai'r ddatblygiad fynd i'r afael â nhw, cyfleon y gellid manteisio arnynt, a pha fuddiannau y gellid eu darparu i ymwelwyr a'r cymunedau fel ei gilydd.

ii) Datblygwyd y cynigion hyn ymhellach trwy nifer o weithdai i randdeiliaid, gan greu 'rhestr hir'o opsiynau posibl.

iii) Cynhaliwyd arolwg ar lein ychwanegol dros Ŵyl y Banc mis Awst mewn ymgais i ymateb i'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad cychwynnol yn bobl leol, gwendid a nodwyd yng ngweithdy'r rhanddeiliaid.

## PWRPAS

Pwrpas gwerthusiad opsiynau yw i finiogi rhestr yr opsiynau (y rhestr hir) a chreu argymhelliad o ba un (neu rai) y dylid ei ddilyn ymhellach (rhestr fer).

Mae gwerthusiad opsiynau yn ddull yn hytrach nag yn wyddor ac, o'i hanfod, fe all fod yn oddrychol. Dyma paham y gwahoddwyd i'r gweithdy pob rhanddeiliad a fynegodd diddordeb mewn cymryd rhan yn y broses, er mwyn ymgynhori â'r amrywiaeth fwyaf eang posibl o farn a safbwyntiau.

Mae llawer i werthusiad opsiynau yn canolbwyntio ar ganfod un opsiwn ddewisol. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, yn sgil natur y safle, yr adeilad a'r cyd-destun, mae'n eglur y bydd y canlyniad terfynol yn gyfuniad o rai o'r cynigion er mwyn creu adnodd addas, gynaliadwy a buddiol ym Mwlch Nant yr Arian.

## METHODOLEG

Cynlluniwyd yr ymarferiad hon fel fframwaith i ystyried (a sgorio) y cynigion ar y 'restr fer' yn erbyn cyfres o ofynion allweddol. Mae'r criteria hyn i'w mesur yn ôl y blaenoriaethau a ddynodwyd gan randdeiliaid yn y gwaith cychwynnol:

1. Adnodd ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr megis ar gyfer iechyd, lles, addysg a mwynhad.
2. Dylai datblygiad newydd gadw a/neu hybu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd leol.
3. Cyfleon ar gyfer yr economi lleol.
4. Cynyddu ymwybyddiaeth o dirwedd, natur a threftadaeth ddiwylliannol Ceredigion a Mynyddoedd Cambria.

Ystyriwyd cynaliadwyedd ariannol i fod o'r pwys mwyaf.

Yn unol â'r ymdriniaeth gydweithredol i'r broses, cynhaliwyd gweithdy rhyngweithiol ar lein ar gyfer rhanddeiliaid. Cytunwyd ar y criteria allweddol, y sgorio a'r fframwaith a'r pwysoli yn yr adran gyntaf. Yn yr ail adran, sgoriwyd y cynigion gan y rhandeiliaid a chofnodwyd y sgoriau cyfartalog ar gyfer pob elfen er mwyn rhoi sgôr cyffredinol y rhanddeiliaid.

Roedd ymgynghorwyr R4C wedi sgorio'r elfennau hyn yn annibynnol ar ei gilydd. Yna roedd cyfanred y ddau sgôr yn creu sgôr terfynol ar gyfer pob elfen. Pwrpas hyn oedd amlygu a herio pan welwyd gwahaniaethau sylfaenol a fyddai'n galw am drafodaeth bellach a/neu'n arwain at ganlyniadau tra wahanol.

Wedi eu sgorio, graddwyd y cynigion o'r sgôr uchaf i'r isaf er mwyn canfod yr opsiynau mwyaf buddiol a chynaliadwy. Nodir y framwaith a'r matrics sgorio ar ddiwedd y ddogfen hon.

Defnyddiwyd hwn fel sylfaen ar gyfer canfod yr opsiynau datblygu gwahanol, a fyddai'n ateb y gofynion gan ddarparu'r buddiannau a ganfyddwyd gan y rhanddeiliaid.

## Y RHESTR HIR

Trafodwyd yr holl gynigion ar gyfer y datblygiad a nodwyd yn yr arolwg ar lein gan weithdai'r rhanddeiliaid. Rhoddwyd cyfle i'r cyfranogwyr i bleidleisio'n ddienw dros bob cynnig, gyda'r ddealltwriaeth y byddai pob cynnig a dderbyniai bleidlais unigol yn cael ei gynnwys yn y rhestr hir i'w ystyried ymhellach.

Yn ychwanegol i'r uchod, cynhwyswyd y cynigion dilynol yng ngweithdai'r rhanddeiliaid ac fe fyddant yn cael eu cynnwys ar y rhestr hir:

- Beiciau statig gyda dangosyddion pŵer (e.e. seiclo i greu pŵer i yrru teclynau'r tŷ)
- Arddangosfeydd rhithrealaeth/clustffonau i alluogi pobl a symudedd cyfyngedig i brofi:
  - Y llwybrau beicio mynydd
  - Yr amgylchedd naturiol (hefyd yn adnodd addysgol)
  - Ffilm drôn 3D o'r safle
- Arsyllfa Wybren Dywyll


Dangosir a chrynhoir y canlyniadau cyferbyn:

## NODYN YNGHYLCH Y DEWISIADAU A WRTHODWYD:

- Ystyriwyd y llethr sgïo sych, y wifren Zip a'r arena chwaraeon dan do yn anaddas ac yn anghymwys i natur y safle.
- Roedd llety yn cael ei ystyried fel modd sicr o gynhyrchu elw, a'r safle'n berffaith ar gyfer gwneud hynny. Fodd bynnag, mi fyddai'n disodli busnes darparwyr lleol gan olygu na fyddai'r datblygiad yn fuddiol i'r mwyafrif llethol o ymwelwyr.
- Barnwyd fod opsiwn y caffi/bwyty yn un a ddisodlai busnes y caffi presennol, ac y dylai unrhyw ddatblygiad yn un a oedd yn ehangu'r cyfleusterau presennol.
- Ystyriwyd bar yn anaddas, er y lleoliad ysblennydd mi fyddai'n newid yr amgylchedd tawel, llonydd a werthfawrogir gan ymwelwyr.

## Y RHESTR HIR

| Safle | Cynnig | Safle | Cynnig |
|---|---|---|---|
| 1 | Gofod wedi ei rannu ar gyfer Cymuned/Digwyddiad/ Addysg | =9 | Ystorfa cyfarpar awyr agored |
| 2 | Cyfleuster Iechyd a Lles | =9 | Unedau busnes |
| 3 | Dehongli Natur a Threftadaeth | =9 | Ardal ymarfer dan do |
| 4 | Canolfan Gelf a Chrefft | =12 | Canolfan ymwelwyr |
| 5 | Llogi beic/trwsio (a glanhau) | =12 | Eisteddle ychwanegol dan do |
| 6 | Cyfleusterau cawod/ymolchi | =12 | Atyniad/cyfleuster arall |
| =7 | Ardal chwarae dan do i blant | Ychwanegol | Beiciau statig |
| =7 | Cyfleuster addysgol pwrpasol | Ychwanegol | Arddangosfa rhithrealaeth/ ffilm drôn |



## Y CANLYNIADAU

Roedd proses y gwerthusiad wedi canfod y cryfderau gymharol i'r cynigion unigol, fel eu dangosir yn y tabl isod:

| Safle | Cynnig | Diffiniad |
|---|---|---|
| 1 | Dehongli Natur a Threftadaeth | Arddangosfa ryngweithiol ar natur, hanes a threftadaeth yr ardal. |
| 2 | Canolfan ymwelwyr | Canolfan ymwelwyr gyda staff yn croesawu ymwelwyr ac yn darparu gwybodaeth am y safle a'r ardal ehangach. Hefyd yn hyrwyddo busnesau. |
| 3 | Canolfan Gelf a Chrefft (gan gynnwys adwerthu) | Oriel, canolfan i arlunwyr, unedau manwerthu. |
| 4 | Gofod wedi ei rannu ar gyfer digwyddiadau cymunedol/addysgol | Gofod amlbwrpas y gellir ei ddefnyddio a'i logi ar gyfer digwyddiadau cymunedol, pwrpas addysgol, gweithgareddau ac ati. |
| 5 | Cyfleuster addysgol pwrpasol | Cyfleuster addysg penodol at ddefnydd ysgolion a phrifysgolion. |
| 6 | Ardal ymarfer allanol/dan do | Campfa dan do, er i rai awgrymu y gallai hwn fod yn gyfleuster y tu allan. |
| 7 | Llogi beic/trwsio | Busnes yn llogi a thrwsio beiciau i ymwelwyr. |
| 8 | Uned busnes/gweithle o bell | Ardaloedd rhwydweithio i alluogi unigolion i weithio o bell ym Mwlch nant yr Arian. |
| 9 | Ystorfa gyfarpar awyr agored | Ystorfa gyfarpar awyr agored, tebyg i Feics Brenin yng Nghoed y Brenin. |
| 10 | Ardal chwarae dan do i blant | Ardal chwarae dan do, ei ddisgrifio'n wreiddiol fel "chwarae meddal' ond yn agored i ddehongliad. |
| 11 | Eisteddle dan do | Eisteddle dan do ychwanegol ar gyfer ymwelwyr |
| 12 | Cyfleusterau cawodi/ ymolchi | Ar gyfer beicwyr a cherddwyr, tebyg i Goed y Brenin. |
| 13 | Golchfa feic | Cyfleuster yn galluogi beicwyr i lanhau eu beiciau cyn ymadael (tu allan). |

**Allwedd:**

Gwyrdd: ar y rhestr fer

Oren: Cyfleusterau eilradd posib

Red: Diystyrwyd

## DATBLYGU RHESTR FER

Nod yr ymarferiad yw i ganfod cyfuniad o elfennau gwahanol sy'n cydweithio o fewn cwmpas yr adeilad gan gynnig adnodd gynaliadwy a dichonadwy sydd o fudd i gymunedau lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

## RHESYMOLI'R CANLYNIADAU

Credwn fod y cynigion yn y pedwar safle uchod (gwyrdd) yn gynigion sydd yn ateb y gofynion a ganfyddwyd gan y rhanddeiliaid, ac hefyd yn cydweddu â'i gilydd. Er enghraifft, mae'r ganolfan ymwelwyr yng Nghwm Elan yn cynnwys arddangosfa ryngweithiol o dreftadaeth leol, siop yn gwerthu rhywfaint o gynnyrch lleol ynghyd â gofod amlbwrpas i'w logi gan grwpiau cymunedol a mudiadau.

Mae nifer o gynigion eraill (mewn coch) a sgoriodd yn is ac sydd yn syrthio'n fyr o'r nod. Nid dweud yr ydym na all elfennau o'r rhain cael eu cynnwys i ateb anghenion y rhanddeiliaid. Er enghraifft, roedd 'cyfleuster addysg penodol' yn gysyniad, gan gynnwys gosod ystafell ddosbarth dan do, gyda'r potensial o swyddog addysg cyflogedig. Fodd bynnag, roedd y sefydliadau addysg a ymatebodd yn nodi y gallai gofod amlbwrpas ateb eu hanghenion.

Byddai ardal ymarfer dan do penodol o ddefnydd cyfyngedig i'r ymwelydd achlysurol, er y gellir datblygu cyfleuster 'campfa awyr agored' ar leoliad arall ar y safle. Gellid cynnal dosbarthiadau ffitrwydd yn y gofod amlbwrpas. Cynigiwyd ardal chwarae dan do yn wreiddiol fel atyniad ym mhob tywydd, yn cynnwys elfennau o 'chwarae rhyngweithiol' mewn unrhyw gyfleuster dehongli fel y cam rhesymol nesaf. Archwiliwyd yr ystorfa gyfarpar awyr agored/llogi beic yn y gorffennol, doedd fawr o archwaeth at y syniad ar ran busnesau lleol oherwydd pryderon ynghylch argaeledd gydol y flwyddyn.

Yn olaf, mae yna rhai cynigion (mewn oren) sydd o'u maint a'u natur wedi sgorio yn isel yn y gwerthusiad yma. Fodd bynnag, fe fyddent yn gallu cynnig buddiannau penodol sylweddol i rai ymwelwyr. Mae'n bosib y gallai'r rhain fod yn 'gyfleusterau eilradd' gwerthfawr, yn ychwanegu'n sylweddol at y prif gynigion

gan ddarparu pecyn mwy cyflawn sy’n gwneud y defnydd gorau o’r buddiannau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

## RHESTR FER


Rydym wedi canfod nifer o gyfuniadau posibl y credwn y byddai’n werthfawr i’w harchwilio ymhellach mewn cyswllt â’u hyfywdra a’u cynaliadwyedd ariannol. Fe’u rhestrir yma a’u hegluro yn y diagram cyferbyn:

6. Canolfan ymwelwyr â staff yn hyrwyddo’r safle a’r rhanbarth ehangach, yn cynnwys dehongliad o’r natur a’r dreftadaeth leol yngyd â gofod cymunedol.
7. Cyfleuster llai heb staff yn cyfuno dehogliad o’r natur a’r dreftadaeth ym Mwlch Nant yr Arian a’r rhanbarth ehangach, gyda gofod cymunedol amlbwrpas.
8. Gofod amlbwrpas mawr a fyddai’n ddigonol ar gyfer y rhan fwyaf os nad yr holl gyfleusterau eilradd petai’n ddymunol.
9. Canolfan Gelf a Chefft a fyddai’n cynnwys stiwdio arlunydd, allfa adwerthu ynghyd ag oriel.
10. Canolfan Gelf a Chrefft a fyddai’n cyfuno stiwio arlunwyr (o bosib yn adwerthu), oriel gyda gofod aml ddefnydd.

Mae’r diagram yn dynodi a yw’r elfennau unigol yn debygol o fod yn fuddiol i’r cymunedau lleol, ymwelwyr, neu’r ddau fel ei gilydd.

Rhestrir hefyd y cyfleusterau eilradd a ganfyddwyd eu bod yn digon bach o ran maint ac y gellir eu darparu ochr yn ochr â’r brif ddatblygiad oddi mewn i gwmpas yr adeilad cyfredol. Byddent yn darparu buddiannau i grwpiau penodol/cynulleidfaoedd fel rhan o’r brif ddatblygiad, gan ychwanegu gwerth ychwanegol.

- Golchfa feic (tu allan)
- Cyfleusterau ymolchi/cawodi
- Eisteddle (dan do)
- Gweithfannau pell




## Y CAMAU NESAF

Os yw’r Grŵp Llywio yn hapus i archwilio’r opsiynau hyn ymhellach, awgrymwn y camau nesaf:

- Asesiad yn amlinellu goblygiadau ariannol tebygol y gwahanol elfennau (costau & incwm).
- Penderfynu pa gyfuniadau sy’n ymarferol i’w cynnwys o fewn cwmpas yr adeilad (Bydd cynllun llawr mesuredig yn ofynnol gan nad yw wedi ei ddarparu*, oherwydd nad oedd un yn adroddiad y syrfëwr. Os nad oes gennych un ar ffeil, fe geisiwn gael syrfëwr lleol i lunio un os gallwn ei gynnwys o fewn y gyllideb gwreiddiol).*
- Canfod opsiwn ddewisol
- Datblygu asesiad ddichonoldeb i’r opsiwn ddewisol.

## FFRAMWAITH GWERTHUSIAD OPSIYNAU – SGORIO A PHWYSOLI

Dyma'r fframwaith gwerthuso opsiynau a gytunwyd.

| Criteria allweddol | Elfennau | Sgôr | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| Adnodd ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr megis ar gyfer iechyd, lles, addysg a mwynhad. | Galluogi neu hyrwyddo iechyd a lles | 1-5 | x2 |
| | Galluogi neu gynorthwyo addysg a dysgu | 1-5 | x2 |
| | Bydd yn cynorthwyo mwynhad a hamdden | 1-5 | x2 |
| | Bydd yn ddeniadol a/neu'n fuddiol i drigolion lleol | 1-5 | x2 |
| | Fydd yn ddeniadol a/neu'n fuddiol i ymwelwyr/ twristiaid? | 1-5 | x2 |
| | Fydd yn gymorth i gynnal rhaglen o ddigwyddiadau cymdeithasol ar gyfer teuluoedd? | 1-5 | x2 |
| Dylai datblygiad newydd gadw a/neu hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r amgylchedd leol. | Bydd yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r amgylched leol | 1-5 | x1.75 |
| | Bydd yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd leol* | 1-5 | x1.75 |
| | | 1-5 | x1.75 |
| Cyfleon ar gyfer yr economi leol. | Bydd yn denu ymwelwyr newydd i'r ardal | 1-5 | x1.5 |
| | Bydd yn annog arhosiadau hirach gan ymwelwyr | 1-5 | x1.5 |
| | Bydd yn denu 'ymwelwyr gwerth uchel' a'u diddordeb yn yr amgylchedd, hanes, diwylliant ac yng ngweithgareddau craidd y sector gweithgareddau awyr agored. | 1-5 | x1.5 |
| Ymwybyddiaeth gynyddol o'r tirwedd, natur a threftadaeth ddiwylliannol Ceredigion a Mynyddoedd Cambria. | Bydd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol Ceredigion a Mynyddoedd Cambria. | 1-5 | x1.25 |
| Cynaliadwyedd ariannol | Bydd yn cynhyrchu cyllid | 1-5 | x2 |
| | Bydd yn debygol o ddenu costau rhedeg a chynnal sylweddol* | 1-5 | x2 |
| | A fydd y cynnig yn galw am bresenoldeb staff ychwanegol? | | x2 |
| | A ellir darparu'r cynnig oddi mewn i'r ganolfan ymwelwyr sydd yno ar hyn o bryd? | | x2 |

*Nodyn: Cafodd y sgoriau ar gyfer yr elfennau gyda * eu cildroi er mwyn sicrhau bod canlyniadau positif yn sgorio'n uwch.*

## EGLURO'R PWYSOLI

Fel y crybwyllwyd yn y fethodoleg, rhoddwyd graddfa symudol i bob Criteria Allweddol, gan adlewyrchu'r blaenoriaethau a ganfu'r rhanddeiliaid.

1. Adnodd ar gyfer trigolion lleol, ar gyfer iechyd, lles, addysg a mwynhad.
2. Dylai ddatblygiad newydd gadw a/neu hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r amgylchedd lleol.
3. Cyfleon ar gyfer yr economi leol.
4. Ymwybyddiaeth gynyddol o dirwedd, natur a threftadaeth ddiwylliannol Ceredigion a Mynyddoedd Cambria.

Rhoddwyd pwys cyfartal i hyfywdra ariannol fel y brif flaenoriaeth gan fod cynaliadwyedd unrhyw ased newydd yn hanfodol.

## MATRICS SGORIO

Mae'r matrics isod yn dangos sut y bu i Banel y Rhanddeiliaid a R4C sgorio'r gwahanol elfennau. Mae'r llinell ar y gwaelod yn dynodi cyfartaledd y sgoriau a fu'n sylfaen gwybodaeth i ganlyniad y gwerthusiad opsiynau trwy raddio'r opsiynau ar y rhestr hir.

| | Shared Community event/ education space | | Interpritation of Nature & Heritage | | Arts & Crafts Centre (Including Retail) | | Bike Hire / Fixing | | Bike Wash | | Bathroom / Showering Facilities | | Indoor Childrens Play Area | | Bespoke Education Facility | | Outdoor Equipment Store | | Business Unit / Remote Workstations | | Indoor/outdoor exercise area | | Visitor Centre | | Indoor Seating Area | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *S'holder* | *R4C* | *S'holder* | *R4C* | *S'holder* | *R4C* | *S'holder* | *R4C* | *S'holder* | *R4C* | *S'holder* | *R4C* | *S'holder* | *R4C* | *S'holder* | *R4C* | *S'holder* | *R4C* | *S'holder* | *R4C* | *S'holder* | *R4C* | *S'holder* | *R4C* | *S'holder* | *R4C* |
| Would enable or promote health & wellbeing | 4 | 4 | 3.6 | 3.5 | 3.6 | 3.5 | 4.1 | 3.5 | 2.6 | 2.5 | 3.4 | 3.5 | 3.4 | 3.5 | 2.9 | 3 | 3.3 | 3.5 | 3.8 | 3 | 4.6 | 5 | 3.7 | 3 | 3 | 2.5 |
| Would enable or support education and learning | 3.9 | 4.5 | 3.9 | 4.5 | 3.6 | 3.5 | 2.8 | 1.5 | 1.4 | 1 | 1.8 | 1..5 | 3 | 3 | 4.4 | 5 | 2.9 | 2.5 | 2.5 | 1.5 | 3.3 | 2.5 | 4.1 | 4.5 | 2.7 | 2 |
| Would support leisure and enjoyment | 3.8 | 4 | 3.5 | 4.5 | 3.9 | 4 | 4.4 | 4.5 | 3.4 | 3.5 | 3.6 | 4 | 3.7 | 4.5 | 2.7 | 2.5 | 3.9 | 4 | 3.5 | 3 | 4.6 | 4 | 4.3 | 4.5 | 3.7 | 3 |
| Would be attractive and/or beneficial for local people | 4 | 4.5 | 3.9 | 4 | 4.4 | 4 | 3.9 | 3.5 | 2.9 | 3.5 | 3.4 | 4 | 3.9 | 4 | 2.7 | 3.5 | 3.6 | 4 | 3.7 | 3.5 | 4.4 | 4.5 | 4.1 | 3.5 | 3.7 | 3.5 |
| Would be attractive and/or beneficial for visitors / tourists? | 3.3 | 2.5 | 4.1 | 4.5 | 4.3 | 4.5 | 4.3 | 4 | 3.5 | 4 | 3.9 | 4.5 | 4.1 | 4 | 2 | 2 | 3.6 | 4 | 3.7 | 4 | 4.4 | 3.5 | 4.3 | 5 | 3.3 | 3.5 |
| Would support the hosting of a social events programme for families? | 3.6 | 4.5 | 3.4 | 3 | 3.5 | 3 | 3.1 | 2.5 | 1.5 | 1 | 2 | 1.5 | 3.1 | 2.5 | 3.7 | 4 | 3 | 1.5 | 1.8 | 1 | 4 | 3 | 3.7 | 3.5 | 2.8 | 3.5 |
| Would increase awareness of the local environment | 3.1 | 3 | 4.3 | 5 | 3.1 | 2.5 | 2.6 | 2 | 1.8 | 1.5 | 1.9 | 1.5 | 2.1 | 2.5 | 4.1 | 4.5 | 2.7 | 2.5 | 2.7 | 1.5 | 2.9 | 1.5 | 4.4 | 4.5 | 1.5 | 1.5 |
| Would have a negative effect on the local environment* | 4.2 | 5 | 4.7 | 5 | 4.7 | 4.5 | 3.9 | 4 | 3.2 | 3 | 3.6 | 4.5 | 4 | 3.5 | 4.6 | 4.5 | 4.2 | 3 | 4.2 | 4 | 4.1 | 4 | 4.1 | 3.5 | 5 | 5 |
| Would have a detrimental effect on the nature of the site* | 4.2 | 5 | 4.9 | 5 | 4.6 | 4 | 4 | 4 | 3.7 | 4.5 | 3.6 | 4.5 | 3.4 | 3 | 4.6 | 4.5 | 4.2 | 2.5 | 4.2 | 4 | 4.4 | 4 | 4 | 3.5 | 5 | 5 |
| Would attract new visitors to the area | 2.6 | 3 | 3.3 | 4 | 3.9 | 4.5 | 3.7 | 3.5 | 2.3 | 2.5 | 3.3 | 3 | 4 | 4 | 3 | 3 | 3.8 | 4 | 3.5 | 3.5 | 4 | 3.5 | 4.7 | 4.5 | 2.5 | 1.5 |
| Would encourage longer visitor stays | 2.4 | 2.5 | 3.5 | 4 | 3.4 | 3.5 | 3.6 | 4 | 2.5 | 3 | 3.6 | 4 | 4.3 | 4 | 3.3 | 3 | 3.5 | 3 | 4 | 3.5 | 3.7 | 3 | 4.2 | 4 | 2.8 | 2.5 |
| Would attract 'high value visitors' interested in the core environmental, historic, cultural and outdoor activities sector. | 2.8 | 2 | 3.5 | 4 | 3.5 | 3.5 | 3.3 | 4 | 2.4 | 3 | 3.1 | 3 | 2.3 | 2 | 3.7 | 4 | 3.7 | 4 | 3.8 | 4 | 3.6 | 2 | 4.3 | 4 | 2.3 | 2 |
| Would promote awareness of the landscape & cultural heritage of Ceredigion & Cambrian Mountains. | 3.1 | 3 | 4.4 | 5 | 3.5 | 3.5 | 2.7 | 2 | 1.6 | 1.5 | 1.5 | 1.5 | 1.8 | 2 | 3.8 | 4 | 2 | 1.5 | 3 | 2 | 2.9 | 1.5 | 4.8 | 5 | 2.3 | 1.5 |
| Would Generate Revenue | 3.4 | 3.5 | 2.8 | 2 | 4.1 | 5 | 4 | 4.5 | 2.8 | 3 | 3 | 3 | 3.3 | 4 | 3.3 | 4 | 4.2 | 5 | 3.8 | 3.5 | 3.3 | 3.5 | 3.3 | 3 | 2 | 1 |
| Would likely have a significant running / maintenance cost* | 3.2 | 4 | 3.2 | 3.5 | 2.9 | 2 | 2.1 | 1.5 | 2.9 | 3.5 | 2.6 | 2.5 | 1.7 | 1.5 | 3.2 | 3 | 2.2 | 2.5 | 2.8 | 4 | 2.4 | 2.5 | 1.7 | 1 | 3.7 | 4.5 |
| Would this proposal require an additional staff presence? | 2 | 3 | 2 | 2.5 | 1.4 | 1 | 1.1 | 1 | 2.9 | 3 | 1.7 | 2.5 | 1 | 1.5 | 1.5 | 1.5 | 1.5 | 1 | 2 | 3 | 2.3 | 2.5 | 1 | 1 | 2.3 | 3 |
| Could this proposal be facilitated in the existing visitor centre? | 2.7 | 3 | 2.2 | 2.5 | 2.6 | 2.5 | 2.9 | 2.5 | 1.1 | 2 | 1.7 | 3 | 3 | 3 | 2.7 | 3 | 2.5 | 2.5 | 2.7 | 3 | 2.6 | 3 | 3 | 3 | 1.8 | 2.5 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Total (weighted) scores | 95.5 | 104.75 | 103.275 | 112.5 | 103.675 | 99.875 | 94.85 | 88.25 | 72.825 | 79.375 | 80.2 | 85.25 | 88.375 | 89.25 | 95.425 | 100.625 | 93.225 | 86.375 | 93.125 | 88.625 | 103.125 | 89.25 | 106.675 | 103.125 | 86.4 | 84 |
| **Total (weighted) score** | **100.13** | | **107.89** | | **101.78** | | **91.55** | | **76.10** | | **82.73** | | **88.81** | | **98.03** | | **89.80** | | **90.88** | | **96.19** | | **104.90** | | **85.20** | |
| **Ranking** | **4** | | **1** | | **3** | | **7** | | **13** | | **12** | | **10** | | **5** | | **9** | | **8** | | **6** | | **2** | | **11** | |

# ATODIAD C:
# ASTUDIAETHAU ACHOS

## CANOLFAN YMWELWYR CWM ELAN

### CWM ELAN

Nepell mewn car, o Raeadr Gŵy, Canolbarth Cymru, mae Cwm Elan yn dirlun hyfryd o gronfeydd, llynnoedd a fforestydd.  Mae'r mwyafrif o'r tir yn rhan o Ystâd Gwm Elan, yn ymestyn dros 72 milltir sgwâr ac yn cael ei reoli gan Ymddiriedolaeth Gwm Elan ar ran Dŵr Cymru.  Amcanion yr Ymddiriedolaeth yw hybu cadwraeth, mynediad cyhoeddus priodol ac i rannu gwybodaeth ynghylch yr ystâd.

Mae'n gyrchfan poblogaidd i ymwelwyr sy'n cael eu denu i weld pensaerniaeth ysblennydd yr argaeau, y golygfeydd godidog, llonydd ac i gerdded neu seiclo drwy'r ystâd ehangach.

### Y GANOLFAN YMWELWYR



Lleolir y Ganolfan Ymwelwyr islaw Argae drawiadol Caban Coch, pedair milltir i'r de-orllewin o Raeadr Gŵy ar Lwybr Seiclo Cenedlaethol 81. Mae Llwybr Cwm Elan o Raeadr, yn rhedeg heibio'r Ganolfan Ymwelwyr hyd at Argae Craig Goch; pellter o 18 millltir.

Mae yna gaffi a siop anrhegion, maes chwarae tu allan, cyfleusterau toiled a maes parcio helaeth. Mae ystafelloedd cyfarfod gyda chysylltiad rhyngrwyd i'r We ar gael i'w llogi, yn ogystal ag arddangosfa dreftadaeth (i'w adleoli yn fuan).

Mae'r arddangosfa dreftadaeth yn adrodd hanes y rwydwaith o gronfeydd, codi'r argaeau ynghyd â threftadaeth leol. Ceir hefyd dehongliad o gylchdro'r dŵr, natur leol a ffilm gan y BBC yn dangos Argae Caban Coch ac yn cynnwys Iolo Williams.

### GWEITHGAREDDAU

Mae Ceidwaid Elan yn cynnal nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys teithiau o gylch yr argae ei hun a gweithgareddau wedi eu canoli ar natur a choedwigaeth. Ym mis Awst 2021 roedd hysbysebion ar fwrdd hysbysebion y gymuned yn cyhoeddi gweithgareddau ac arolygon ar gorsydd, dolydd a chynefinoedd y gweundiroedd. Cynhelir ymweliadau ysgol hefyd yn y ganolfan.

Ceir gwasanaeth llogi beic yn y ganolfan ymwelwyr wedi ei weinyddu gan y Ceidwaid, yn darparu beiciau cyffredin ynghyd â beiciau trydan. Mae'r ardal yn ffurfio unig Barc Wybren Dywyll dynodedig Cymru, ac yn denu ymwelwyr i syllu ar y sêr yn ogystal â digwyddiadau eraill.

Mae yna dros 180 cilomedr o lwybrau cerdded wedi eu harwyddo neu â thaflenni arwain ar draws yr Ystâd, gyda thaith natur fer gyfagos i'r ganolfan ymwelwyr gydag 20 o baneli dehongli wedi eu gosod oddi amgylch.

Mae'r ardal yn enwog am feicio mynydd, er nad oedd yr elfen hon yn amlwg ym mhroffil yr ymwelwyr yn y maes parcio ar ddiwrnod ein hymweliad, ac nid dyna sy'n denu'r mwyafrif o ymwelwyr i'r ardal. Mae pysgota hefyd yn boblogaidd ar hyd yr afonydd a'r cronfeydd ac mae cynlluniau i ddatblygu chwaraeon dŵr yn y dyfodol.

## CYFLEUSTERAU AC ATYNIADAU

- CaffI
- Siop anrhegion
- Arddangosfa dreftadaeth rhyngweithiol a ffilm
- Ystafelloedd cyfarfod gyda chysylltiad i'r rhyngrwyd
- Cyfleusterau toiled
- Llogi beiciau (gan gynnwys e-feiciau)
- Ardal chwarae tu allan
- Maes parcio eang
- Llety (oddi ar y safle)
- Priodasau

## ARALL

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweinyddu nifer o fythynnod hunan arlwyol, a'r rhain wedi eu gwasgaru ar draws yr ystâd eang. Ym mhentref Elan ei hun mae llety'r 'Lodge' sydd yn cael ei renti i grwpiau a busnesau ar gyfer digwyddiadau preswyl.



## GWERSI I FWLCH NANT YR ARIAN

Mae'n rhannu nifer o gyfleusterau'n gyffredin â Bwlch Nant yr Arian, gan gynnwys caffi, siop anrhegion, ardal chwarae tu allan i blant yn ogystal â chyfleusterau toiled cyhoeddus.

Mae'r ddau safle yn ymagor ar lwybrau beicio a cherdded ar ystâd ehangach ac mae gan y ddau lwybrau natur a phaneli dehongli awyr agored. Fodd bynnag, yng nghanolfan Cwm Elan mae yna arddangosfa ryngweithiol yn darlunio treftadaeth a hanes y safle ar y cyd gyda gwybodaeth ynghylch y bywyd gwyllt lleol.

Mae llogi beiciau wedi cael ei awgrymu ym Mwlch Nant yr Arian, ac yma mae'n ymddangos yn fodel poblogaidd a chynaliadwy ac yn cael ei redeg yn fewnol gan geidwaid yr Ymddiriedolaeth. Serch hynny, y gwahaniaeth yw mai beiciau ffordd ydynt i dramwyo y llwybrau palmentog, gyda graddiant raddol sydd gan fwyaf yn ddi-draffig ar hyd lonydd gwledig tawel. Mae'n daith beic hynod hardd wedi ei anelu at ymwelwyr a theuluoedd sy'n ymweld ac yn barnu y byddai taith cefn beic yn ffordd dda i weld y cwm, sy'n wahanol

i’r beicio mynydd ar gynnig ym Mwlch Nant yr Arian, ac mae gan yr olaf ystyriaethau gwahanol ynghylch diogelwch a chynnal a chadw.

Mae gofod hydwyth ar gael i’w logi ar ffurf ystafelloedd cyfarfod, ac mae’r rhain yn caniatáu gweithgareddau eraill fel ymweliadau gan grwpiau ysgolion. Mae hyn yn berthnasol i’r cynigion yr ydym wedi cael ym Mwlch Nant yr Arian, ac mae’n eglur fod y pwyslais ar gysylltiad rhwydwaith/rhyngrwyd da ar y wefan yn nodwedd bwysig.

*Yr hysbysfwrdd gymunedol*

# COED Y BRENIN

## LLEOLIAD

Coed y Brenin oedd y ganolfan feicio mynydd gyntaf ym Mhrydain i’w hadeiladu’n bwrpasol, ac mae’n cael ei chydnabod fel un o gyrchfannau mwyaf poblogaidd y gamp. Wedi ei leoli ar yr A470 rhwng Dolgellau a Thrawsfynydd, mae’n ymestyn dros 13.9 milltir sgwar (9000 erw) o dirwedd greigiog, a choetiroedd o gylch dyffrynoedd afonydd Mawddach, Eden, Gain a Wen.

Gweinyddir y safle gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ac fe saif ar Lwybr 82 y Llwybr Seiclo Cenedlaethol.

## Y GANOLFAN YMWELWYR

Agorwyd y ganolfan ymwelwyr newydd ar gost o £1.6m yn 2006.  Mae’r ganolfan yn ganolbwynt i’r holl weithgareddau ar y safle, er bod cerddwyr yn gallu cael mynediad at y llwybrau o’r meysydd parchio oddi amgylch. Mae’r ganolfan yn cynnwys siop anrhegion a chaffi, gydag eisteddleoedd tu allan a dan do. Mae yna hefyd ardal chwarae y tu allan ar gyfer plant.



Mae ‘Beics Brenin’ wedi eu lleoli yn y ganolfan ymwelwyr, yn ogystal â dillad a chyfarpar ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Maent hefyd yn darparu gwasanaeth llogi beiciau mynydd ac yn cynnal hyfforddiant sgiliau beic. Ceir ystafelloedd newid a chyfleusterau cawod, ynghyd â maes parcio eang, hygyrch.

Mae hefyd cyfleusterau cynhadledda ar gyfer hyd at 80 o bobl, sy’n cynnwys  Wi-fi am ddim, cyfleusterau galwadau cynhadledd, sgrin a thaflunydd gyda system sain a sgrin gyffwrdd amlgyfrwng.

## GWEITHGAREDDAU

Y gweithgareddau awyr agored yw’r brif atyniad i ymwelwyr, ac mae’r safle gyfan yn gweithio tuag at hyn. Ceir wyth llwybr pwrpasol ar gyfer beicio mynydd, gan

ddechrau o’r ganolfan ymwelwyr, yn amrywio o lwybrau rhwydd ar gyfer teuluoedd a dechreuwyr hyd at lwybrau technegol ar gyfer beicwyr profiadol. Mae yna hefyd ardal sgiliau lle y gallwch ddatblygu eich technegau beicio.

Ceir tri llwybr rhedeg, yn amrywio o un milltir i bellter hanner marathon, tri llwybr cerdded, gan gynnwys un byr sy’n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae yna ddau lwybr Geocashing ynghyd â phedwar llwybr cyfeiriannu.

Mae yna hefyd ardaloedd chwarae i blant, caffi a digonedd o fyrddau picnic. At hynny, mae llwybrau teithiau natur ar hyd daith gerdded Eden y gall plant eu dilyn a chynhelir rhai gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys dosbarth pilates rheolaidd. Mae gan Ganolfan Ymwelwyr Coed y Brenin Gwobr Aur Visit Wales ar gyfer atyniadau sy’n gwneud ymdrech eithriadol i greu profiad plesurus a chofiadwy i ymwelwyr.



## CYFLEUSTERAU AC ATYNIADAU

- Caffi
- Siop anrhegion
- Ystorfa feic & chyfleuster llogi beic
- Cyfleuster Cynhadledda amlgyfrwng
- 8 llwybr beicio mynydd
- 5 llwybr rhedeg
- 3 llwybr cerdded (yn cynnwys un agored ac addas i gadeiriau olwyn)
- 2 llwybr geocashing
- 4 llwybr cyfeiriannu
- Maes parcio eang

## ARALL

Mae Coed y Brenin, fel Bwlch Nant yr Arain, hefyd yn rhan o gynllun ‘Y Goedwig Cenedlaethol’. Bydd y cynllun hwn, a’i frandio, yn cael ei datblygu ymhellach dros y ddegawdau nesaf, llaw yn llaw â llwybr coedwig genedlaethol, gyda’r bwriad o ddyblygu, yn y mewndir, llwyddiant Llwybr Arfordir Cymru.

## GWERSI I FWLCH NANT YR ARIAN

Mae’r safle’n rhannu nifer o gyfleusterau sy’n gyffredin i Fwlch Nant yr Arian, yn enwedig y siop, siop anrhegion a’r ardal chwarae awyr agored. Mae gan Fwlch Nant yr Arian hefyd

nifer o lwybrau beicio, cerdded a rhedeg, er bod llai ohonynt ac felly llai o amrywiaeth ar gyfer ymwelwyr cyson. Mantais amlwg Coed y Brenin yw ei bod yn cael ei chydnabod fel un o gyrchfannau gorau'r genedl ar gyfer beicio mynydd.

Beicio mynydd a gweithgareddau awyr agored eraill, yw'r prif atyniad yma'n ddïau, tra ym Mwlch Nant yr Arian mae'r elfen hon yn cyd-redeg â'r amgylchedd naturiol a'r bywyd gwyllt fel prif atyniadau. Mae gwersi y gellir dysgu ohonynt, ac mae'r cawodydd a'r cyfleusterau llogi beic yn enghreifftiau amlwg o sut y gellir gwella ar gynnig Bwlch Nant yr Arian. Gellir cynnig cyrsiau, ond mae'n anodd asesu os yw'r niferoedd sy'n ymweld yn cyfiawnhau'r mentrau masnachol (hyfforddi a llogi) a'u gwneud yn ddichonadwy yn ariannol.

Fodd bynnag, rhaid wrth ystyriaeth o'r effeithiau hir dymor ar y safle, a'r perygl o golli'r cydbwysedd rhwng y gweithgareddau a'r elfennau amgylcheddol i'r graddau y byddai Bwlch Nant yr Arian yn colli'r amgylchedd tawel, llonydd sydd mor werthfawr iddi. Mae Coed y Brenin yn denu llawer mwy o ymwelwyr ac fe fyddai'n rhaid datblygu i'r cyfeiriad yma oddi mewn i gwmpas y cyfleusterau cyfredol (yn enwedig parcio) sydd eisioes wedi cyrraedd capasiti.

Mae'r cyfleuster cynadledda/amlbwrpas yn nodwedd ddiddorol arall sydd wedi ei gynnig ym Mwlch Nant yr Arian. Er bod y gofod yn llai ym Mwlch Nant yr Arian, mae'n bosibl y byddai digon o alw, gan gyfuno'r elfen o addysg a digwyddiadau prifysgol a dosbarthiadau/cymunedol, i wneud y math yma o gyfleuster yn ddichonadwy gan greu incwm. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweinyddu'r ddau safle, felly bydd y ffigyrau ar gael i'w harchwilio wedi i'r cynllun busnes gael ei ddatblygu.

## PINETWM BEDGEBURY

### Y LLEOLIAD



Wedi'i leoli ar y ffin rhwng Swydd Caint a Dwyrain Sussex, mae Pinetwm Bedgebury yn gartref i'r pinetwm mwyaf yn y byd ac yn bwysig yn fyd eang am gadwriaeth rhywogaethau, dealltwriaeth o goed conwydd ac yn flaengar wyddonol. Sefydlwyd y safle ar y cyd ym 1924 rhwng y Comisiwn Goedwigaeth a'r Gerddi Fotaneg Brenhinol yn Kew.


Mae'r safle'n cynnig lleoliad gwych ar gyfer picnic neu daith gerdded. Mae canolfan ymwelwyr Bedgebury a'r caffi yn cynnig golygfeydd godidog ar draws llyn i'r Pinetwm.

Mae milltiroedd o seiclo teuluol a beicio mynydd, llwybrau rhedeg a cherdded yn y goedwig ehangach, yn ogystal ag antur 'pen coed' Go Ape a llwybr chwarae anturus sy'n cynnwys Gruffalo.

### Y GANOLFAN YMWELWYR

Agorwyd y ganolfan ymwelwyr yn 2006 fel rhan o gynllun £2.26M gyda chefnogaeth £1.1M oddi wrth Sport England. Yn canolbwyntio ar weithgareddau hamdden, mae'r ganolfan yn gweithredu fel man canolog i logi beiciau, mwynhau'r caffi, cawodi wedi ymarfer neu derbyn addysg yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r ganolfan yn mantesio ar ardal chwarae naturiol, llwybrau cerdded a beicio ag arwynebedd drwy'r goedwig ynghyd â llwybrau marchogaeth ceffyl. Mae yna hefyd peth ddehongli ynghylch coedwigaeth a'r Pinetwm yn y ganolfan.




## GWEITHGAREDDAU

Yn ychwanegol at weinyddu a chynnal y safle, mae Forestry England yn cynnig darpariaeth addysgol i ysgolion a cholegau.

Cefnogir y fenter gan bartneriaid allweddol gan gynnwys Go Ape sy'n gweithredu'r atyniad antur pen coed, Quench Cycles sy'n gweithredu llogi'r beiciau ynghyd â Ffrindiau Pinetwm Bedgebury, elusen o wirfoddolwyr sy'n cynnal cynllun i gefnogi aelodau a hybu'r Pinetwm.

Gwelir Bedgebury gan ymwelwyr fel lle ar gyfer hamdden, gan bwysleisio chwarae ymarferol, er bod gwaith yn parhau i ddatblygu'n bellach yr elfen o dreftadaeth sy'n gysylltiedig â'r Pinetwm.

## CYFLEUSTERAU AC ATYNIADAU

- Pinetwm Cenedlaethol, dros 12,000 o goed
- 3 llwybr cerdded a 3 llwybr beicio
- 4 llwybr cyfeiriannu a llwybrau rhedeg wedi eu harwyddo
- Go Ape
- Marchogaeth ceffylau
- Ardaloedd chwarae
- Siop a llogi beic
- Caffi Bedgebury
- Llogi tramper
- Croeso i gŵn a chŵn tywys

## ARALL

Cynhelir digwyddiadau awyr agored a gwyliau poblogaidd yn Bedgebury gan gynnwys Forest Live (gŵyl gerddoriaeth yn y goedwig) ac mae'r Nadolig yn Bedgebury (rhodfa coedtir gaeafol wedi ei oleuo) yn denu miloedd o ymwelwyr ychwanegol yn unswydd i'r digwyddiadau hynny. Mae'r rhain yn ffynhonnell elw sylweddol i'r safle.



## GWERSI I FWLCH NANT YR ARIAN

Gan adleisio Bwlch Nant Yr Arian, mae gan Bedgebury ddarpariaeth seiclo poblogaidd a datblygedig ynghyd â chaffi o safon, toiledau ac ardaloedd chwarae. Mae llwyddiant hwn wedi denu partneriaid ychwanegol sy'n cynnig gwasanaethau, gan ehangu'r hyn sydd ar gynnig ymhellach.

Fodd bynnag, mae Bedgebury yn enghraifft dda o sut mae datblygu hamdden wedi gweld cynyddu'r ymwelwyr i lawn gapasiti'r safle ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol. Mae'r poblogrwydd hefyd wedi tanseilio ymwybyddiaeth o'r statws y safle fel un ag iddo dreftadaeth naturiol sylweddol rhyngwladol. Gwelir erbyn hyn gweithredu ar y cyd mewn ymgais gref i adfer y cydbwysedd yma trwy ddatblygu'r elfen o dreftadaeth erbyn canmlwyddiant y Pinetwm yn 2025.

Dylai Bwlch Nant yr Arian ystyried effaith penderfyniadau strategol ynghylch datblygiad hamdden yn erbyn treftadaeth, a'r ffordd orau o gadw cydbwysedd rhwng y ddwy elfen. Gellir archwilio potensial cynnal digwyddiadau unigol â themau er mwyn denu cynulleidfa mawr a gwahanol.

## CANOLFAN BYWYD GWYLLT DYFI

Mae'r ganolfan newydd hon ar gyfer bywyd gwyllt yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ac nid yw eto'n agored i'r cyhoedd. Fe'i lleolir rhwng Machynlleth ac Eglwysfach, ar safle presennol Dyfi Ospreys Project.

Codwyd adeilad 2 lawr o fframwaith coed yn ddiweddar, yn cynnwys derbynfa, siop, caffi ac ardal ddehongli ar y llawr gwaelod. Ar yr ail lawr ceir oriel gydag eisteddle ar gyfer 100, gofod arddangos, ystafell ddosbarth a swyddfa i staff a gwirfoddolwyr.

Mae hygyrchedd yn nodwedd gref, gyda lifft a'r cynllun cyffredinol yn gwneud y cyfleuster yn hygyrch i bawb.

## GWERSI I FWLCH NANT YR ARIAN

Mae yna nodweddion sy'n debyg rhwng y ddwy safle a'r cyfleusterau sy'n cael eu cynnig yng Nghanolfan Bywyd Gwyllt Dyfi a Bwlch Nant yr Arian.

Mae eu siop a'u caffi yn dyblygu'r cyfleusterau sydd eisioes ym Mwlch Nant yr Arian, tra y byddai'r gofod cymunedol amlbwrpas a awgrymwyd ym Mwlch Nant yr Arian yn gweithredu fel ystafell ddosbarth dan do a gofod ar gyfer digwyddiadau yn ôl y galw.

Mae gan Ganolfan Bywyd Gwyllt Dyfi hefyd gofod dehongli penodol a fydd, gellir tybio, yn adeiladu ar y Dyfi Ospreys Project (camerau ar nythod ac ati) gan arddangos Gwarchodfa Fywyd Gwyllt Dyfi yn ehangach.

Er nad yw eu cwmpas mor eang o ganlyniad i brinder darpariaeth ar gyfer gweithgareddau awyr agored o'i gymharu â Bwlch Nant yr Arian, maent yn canolbwyntio ar y gymuned ac yn cynnwys gwirfoddolwyr; gall hwn fod yn rhywbeth i'w archwilio ymhellach ym Mwlch Nant yr Arian. Fe all hwn gynnal gweithgareddau addysgol ychwanegol, gweithgareddau a/neu gyfrannu at staffio'r ddatblygiad newydd ym Mwlch Nant yr Arain ar gyfnodau prysur.

# ATODIAD D:
# ADRODDIAD YMCHWIL BEAUFORT AROLWG YMWELWYR CYMRU 2019

(Ar gael ar ofyn oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru)

# ATODIAD E:
# ASTUDIAETH DDICHONOLDEB A STRWYTHUROL ROBERTS BUILDING CONSULTANTS (2021)

(Ar gael ar ofyn oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru)